# Agenda - Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 18 Medi 2019

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6363

SeneddNHAMG@cynulliad.cymru

## 1 Cyfarfod cyn y prif gyfarfod (09:15 - 09:30)

(09.15-09.30)

## CYHOEDDUS (09.30)

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 3 Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) - sesiwn dystiolaeth 1

(09.30-11.00)

(Tudalennau 1 - 25)

Michael Radford, Darllenydd mewn Cyfraith Lles Anifeiliaid a Chyfraith Gyhoeddus - Prifysgol Aberdeen

Yr Athro Ron Beadle, Athro mewn Trefniadaeth a Moeseg Busnes - Prifysgol Northumbria

Dr Rebekah Humphreys, Darlithydd mewn Athroniaeth - Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

## 4 Papur(au) i'w nodi

(11.00-11.10)

**4.1 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar ailfeddwl am fwyd yng Nghymru: brandio a phrosesu bwyd**

(Tudalennau 26 - 40)

Dogfennau atodol:

Llythyr ac ymateb

**4.2 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar bolisïau a chynigion sy'n ymwneud â llygredd plastig a gwastraff deunydd pecynnu**

(Tudalennau 41 - 48)

Dogfennau atodol:

Llythyr ac ymateb

**4.3 Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiadau'r Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil Amaethyddiaeth y DU**

(Tudalennau 49 - 61)

Dogfennau atodol:

Llythyr ac ymateb

**4.4 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at y Llywydd - Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru)**

(Tudalennau 62 - 64)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**4.5 Gohebiaeth gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig at y Cadeirydd - egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu amgylcheddol**

(Tudalennau 65 - 67)

Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**4.6 Gohebiaeth rhwng y Cadeirydd a Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig; Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, a'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol - Fframweithiau Polisi Cyffredin y DU**

(Tudalennau 68 - 80)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr at Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Llythyr at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Llythyr at Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd ar gyfer eitemau 6,7,8,9 a 10 o'r cyfarfod heddiw

**PREIFAT (11.10-12.00)**

## 6 Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2

## 7 Trafod adroddiad drafft y Pwyllgor ar egwyddorion amgylcheddol a llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit

(Tudalennau 81 - 122)

Dogfennau atodol:

Adroddiad Drafft (Saesneg yn unig)

## 8 Trafod y flaenraglen waith

(Tudalennau 123 - 128)

Dogfennau atodol:

Papur (Saesneg yn unig)

## 9 Cynllunio ar gyfer gwrandawiad cyn penodi - Cadeirydd newydd Cyfoeth Naturiol Cymru

(Tudalennau 129 - 134)

Dogfennau atodol:

Papur (Saesneg yn unig)

## 10 Trafod adroddiad drafft y Pwyllgor ar y cynllun nwyddau cyhoeddus: adfer bioamrywiaeth

(Tudalennau 135 - 152)

Dogfennau atodol:

Adroddiad Drafft (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Lesley Griffiths AC**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Materion Gwledig a'r Amgylchedd,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Caerdydd
CF99 1NA

17 Gorffennaf 2019

Annwyl Mike,

**Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru: Brandio a Phrosesu Bwyd – Ymateb i'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Materion Gwledig a'r Amgylchedd**

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor am yr adroddiad manwl a gyhoeddwyd ar 18 Mehefin yn ymwneud ag Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru: Brandio a Phrosesu Bwyd. Rwy'n cydnabod yr argymhellion a'r casgliadau a wnaed yn yr adroddiad ac amgaeaf ymateb manwl iddynt.

Byddaf yn hapus i drafod yr ymatebion i'ch adroddiad os bydd angen.

Yn gywir,

**Lesley Griffiths AC**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth. Lesley. Griffiths @ llyw. Cymru
Gohebiaeth. Lesley. Griffiths @ llyw. Cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, sef Ailfeddwl am Fwyd yng Nghymru: Brandio a Phrosesu Bwyd**

---

**Y Cefndir i'r Sefyllfa Bresennol**

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwydiant bwyd yng Nghymru trwy'r camau gweithredu a ddisgrifir yn y cynllun gweithredu cyfredol 'Tuag at Dwf Cynaliadwy - Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020'. Mae'r cynllun yn cefnogi'r Strategaeth hirdymor, 'Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010-2020'. Daw'r Cynllun a'r Strategaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019.

Mae dogfen Llywodraeth Cymru 'Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi ', a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn nodi'r diwydiant Bwyd a Diod fel sector sylfaen i gael cymorth. Mae 'Ffyniant i Bawb' yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu gwaith presennol i gryfhau'r sector a datblygu cynlluniau galluogi ar draws y llywodraeth er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl.

Cyn derbyn yr adroddiad hwn, roeddwn wedi cytuno y byddai Llywodraeth Cymru yn lansio'r ymgynghoriad ar gyfer yr hyn sy'n olynu'r strategaeth a'r cynllun gweithredu presennol yn Sioe Frenhinol Cymru ar 23 Gorffennaf 2019. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn helpu i bennu'r cyfeiriad ar gyfer y degawd nesaf ac yn penderfynu pa gymorth sydd ei angen i ddatblygu'r llwyddiant hyd yn hyn wrth i'r Deyrnas Unedig barhau i negodi ei pherthynas â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol. O ganlyniad, rwy'n croesawu amseriad yr adroddiad hwn sy'n darparu rhagor o dystiolaeth i'w hystyried wrth baratoi'r dogfennau a fydd yn olynu'r dogfennau blaenorol.

**Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad i'w gweld isod:**

**Argymhelliad 1**

Rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar bob un o gasgliadau'r adroddiad hwn o fewn 12 wythnos i'w gyhoeddi, oni nodir yn wahanol. Os bydd Llywodraeth Cymru yn anghytuno ag un o gasgliadau'r Pwyllgor, dylai nodi ei rhesymau am wneud hynny.

**Ymateb:** Derbyn. Rhoddir ymateb llawn i bob casgliad isod.

**Goblygiadau Ariannol**: Dim: Ni ysgwyddwyd unrhyw gostau ychwanegol wrth baratoi'r ymatebion i gasgliadau'r Pwyllgor.

**Casgliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno strategaeth newydd ar gyfer bwyd a diod. Rydym yn ailadrodd y dylai'r strategaeth newydd:

▪ adlewyrchu dull system gyfan sy'n gwneud cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi, megis iechyd, lles a chynaliadwyedd, ynghyd â thwf economaidd,

▪ fod yn seiliedig ar amcanion a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a

▪ chael cynllun gweithredu i gyd-fynd â hi, gan gynnwys mesurau a thargedau.

Bu gwaith ymgysylltu eang ar waith ers mis Mehefin 2018 i gyfrannu at ddatblygu'r hyn a fydd yn olynu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu presennol. Mae'r ymgynghoriad a lansiais ar y cyd â'r Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod i Gymru ar 23 Gorffennaf yn Sioe Frenhinol Cymru yn gyfle i ystyried ystod lawn o fewnbynnau gan randdeiliaid a chysylltiadau polisi ehangach a fydd yn sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer y Cynllun Strategol olynol.

Mae ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi bod yn sylfaen i ddylunio'r cynigion a amlinellir yn y papur ymgynghori i sicrhau eu bod yn fanteisiol i economi Cymru a phobl Cymru. Mae'r papur ymgynghori yn cynnig cyfres o dargedau a mesurau sy'n darparu gweledigaeth glir o natur llwyddiant.

**Casgliad 2**
Galwodd y Pwyllgor am strategaeth fwyd gyffredinol newydd ar ôl Brexit flwyddyn yn ôl. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd wrth ddatblygu strategaeth, mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit wedi oedi ei gyflwyniad. Mae amseriad y strategaeth yn aneglur o hyd. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r amserlen ar gyfer y cynllun gweithredu a'r strategaeth newydd ar gyfer bwyd a diod.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ymgynghoriad ar 23 Gorffennaf. Mae'n cynnig cynllun strategol newydd ac uchelgeisiol i ddarparu cyfeiriad clir ar gyfer y diwydiant y tu hwnt i 2020. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 15 Hydref.

Byddwn yn defnyddio canlyniadau'r ymgynghoriad hwn i gyhoeddi'r cynllun strategol newydd erbyn dechrau 2020.

**Casgliad 3**
Yn dilyn Brexit, bydd y DU yn dechrau cyfres ar wahân o drafodaethau ynghylch ei pherthynas fasnachu yn y dyfodol â'r UE a gweddill y byd. Dylai Llywodraeth Cymru gael llais cyfartal wrth y bwrdd trafod. Mae'n hanfodol bod gan Lywodraeth Cymru weledigaeth glir, strategol ar gyfer sector bwyd Cymru yn seiliedig ar ymrwymiad i gynnal, os nad gwella, ein safonau amgylcheddol,

hylendid bwyd a lles anifeiliaid uchel. Dylid adlewyrchu'r weledigaeth strategol hon yn sefyllfa negodi'r DU.

Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth glir, strategol ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru fel y'i nodir yn ein cynllun gweithredu cyfredol ac yn y cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad ar gyfer y cynllun strategol a fydd yn olynu'r cynllun presennol.

Mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU wedi ystyried y digwyddiadau a'r cynlluniau hyrwyddo cenedlaethol cadarn iawn yn ymwneud â bwyd a diod yng Nghymru yn yr adroddiad *Brand Britain: Promoting and Marketing British Food and Drink,* a gyhoeddwyd ar 27 Mehefin. Byddwn yn parhau i weithredu'n gadarn ynglŷn â'n gweledigaeth strategol i gynnal ein safonau cynhyrchu bwyd uchel yn ein trafodaethau parhaus â Llywodraeth y DU.

**Casgliad 4**

Rhaid i'r strategaeth newydd ar gyfer bwyd a diod fod yn ddigon hyblyg i ymateb i bwysau a chyfleoedd sy'n deillio o Brexit, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â newidiadau yn yr amgylchedd masnachu.

Er gwaethaf yr ansicrwydd parhaus ynglŷn â BREXIT, rydym yn parhau i gydnabod yr heriau hirdymor o fewn y diwydiant bwyd a diod y mae angen eu hwynebu a mynd i'r afael â nhw. Mae cynyddu cynhyrchiant, gwella sgiliau, tyfu ein graddfa, arferion busnes cynaliadwy, ysgogi cryfder ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi, ychwanegu gwerth at ein cynnyrch, hyrwyddo llwybrau cadarn i farchnadoedd y byd, a chodi ein proffil yn faterion nad ydynt yn gysylltiedig â BREXIT.

Bydd y cynllun newydd yn cynnwys cyfres o nodau a chamau gweithredu cydlynol ac integredig a fydd yn dangos ein hymrwymiad i weithredu ein gwerthoedd a sicrhau llesiant i Gymru gyfan.

**Casgliad 5**

Mae cyllid yr UE wedi cefnogi twf y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, yn rhannol o leiaf. Ni fydd yr arian hwn ar gael mwyach ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod lefel ddigonol o gyllid ar gael i gyflawni'r cynllun gweithredu a'r strategaeth newydd. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am unrhyw asesiad a gynhaliwyd o effaith Brexit ar gyllid ar gyfer y diwydiant bwyd a diod. Dylai hefyd ddarparu manylion am unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ar sut yr eir i'r afael ag unrhyw ostyngiad mewn cyllid, gan gynnwys canlyniad y trafodaethau hynny.

Bydd Brexit yn newid sut y gellir ariannu'r cymorth ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru, a faint o arian sydd ar gael. Yn hanesyddol, Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru, wedi'i hariannu gan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE, fu ein prif ddull o gefnogi ein busnesau bwyd, boed hynny drwy

grantiau buddsoddi uniongyrchol neu wasanaethau cymorth mewn nwyddau, gan drosglwyddo gwybodaeth a chyngor neu gefnogi digwyddiadau.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynglŷn â threfniadau ariannu ar gyfer pob rhaglen ar ôl i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Wrth wneud hynny, mae Llywodraeth Cymru yn glir na ddylai ymadael â'r UE arwain at unrhyw ostyngiad yn yr arian sydd ar gael i Gymru.

Fodd bynnag, mae'r setliad ariannol ar gyfer Cymru yn y dyfodol yn ansicr o hyd, ac oherwydd dull gweithredu Llywodraeth y DU mewn perthynas â llymder, mae'n rhaid i gyllideb Llywodraeth Cymru fodloni llawer o ofynion cynyddol â llai o adnoddau. Yn erbyn y gefnlen gymhleth hon, mae'n rhaid i ni gydnabod y gall y dirwedd cymorth ac ariannu bresennol newid ac y gallai hyn effeithio ar flaenoriaethau ariannu yn y dyfodol, gan gynnwys y diwydiant bwyd a diod.

**Casgliad 6**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r flaenoriaeth a roddir i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru. Clywsom gan y rhanddeiliaid fod statws bwyd y Sector Sylfaen newydd yn rhoi cyfle sylweddol i gryfhau'r diwydiant. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth fydd y statws newydd hwn yn ei olygu i'r diwydiant, yn ymarferol. Dylai Llywodraeth Cymru egluro hyn. Dylai hefyd egluro sut y mae'r strategaeth newydd yn cyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, a sut y bydd y cynllun galluogi trawslywodraethol sydd ar ddod ar gyfer y Sectorau Sylfaen yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r strategaeth newydd.

Mae datblygu'r Cynllun Strategol newydd yn gyfle i ystyried sut y gallwn ddatblygu'r sector mewn ffordd gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol ac economaidd, gwella llesiant Cymru, a chreu rhwydweithiau cadarn sy'n helpu i wneud ein system fwyd yn gryfach. Mae'r sector bwyd a diod yn parhau i fod yn ganolog i waith cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer hybu datblygiadau ym maes iechyd y cyhoedd, lleihau gwastraff ac allyriadau carbon, defnyddio adnoddau mewn ffordd gynaliadwy, ymgorffori gwaith a chyflogaeth deg ar draws ein cymunedau, yr economi a chodi proffil rhyngwladol Cymru fel gwlad.

Mae'r cynigion ar gyfer y Cynllun Strategol wedi'u datblygu i gyd-fynd ag egwyddorion Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi sy'n golygu bod y broses o gynhyrchu bwyd a nwyddau cyhoeddus yn cael ei chydnabod fel gwaith sy'n atgyfnerthu ei gilydd, nid yn annibynnol ar ei gilydd, gan barhau i gyfrannu at lesiant ein cenedl.

**Casgliad 7**

Mae gan yr "hunaniaeth Gymreig" rôl bwysig i'w chwarae wrth hyrwyddo a marchnata cynhyrchion bwyd a diod o Gymru ar lefel ddomestig a rhyngwladol. Gellir ei defnyddio i werthu stori Cymru, ac mae'n galluogi cynhyrchwyr i wahaniaethu rhwng eu cynhyrchion a rhai eu cystadleuwyr.

Felly, rhaid i'r hunaniaeth Gymreig fod yn rhan ganolog o ddull Llywodraeth Cymru o hyrwyddo Cymru fel cenedl fwyd.

Mae datblygu hunaniaeth Gymreig yn bwysig, ynghyd â safonau uchel, achredu cydnabyddedig a'r gallu i olrhain cynnyrch. Bydd y ffactorau hyn, ynghyd â blas gwych a hanes deniadol, yn gwerthu bwyd o Gymru yn y wlad hon ac yn rhyngwladol.

Bydd cymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer brandiau Cymru yn seiliedig ar y gadwyn gyflenwi trwy hyrwyddo rhai Gwerthoedd Brand Cynaliadwy, yn unol â brand cenedl y Cymry – Cymru/Wales, sydd wedi'i ddatblygu'n llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf gan Croeso Cymru. Mae'r rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwy yn cael ei datblygu mewn cydweithrediad â'r diwydiant bwyd a diod, a bydd yn darparu system gadarn ar gyfer tarddiad ac olrhain cynnyrch sy'n seiliedig ar sylfeini economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cadarn. Er bod y ffocws ar y sector bwyd a diod, bydd y safonau a'r camau gweithredu yn berthnasol yn gyffredinol i sectorau eraill megis amaethyddiaeth.

**Casgliad 8**

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu "hunaniaeth Gymreig" gliriach yn seiliedig ar werthoedd cryf sy'n atseinio ar draws sawl marchnad. Rhaid iddi adlewyrchu'r amrywiaeth o gynnyrch sy'n dod o Gymru, gan gynnwys bwyd môr. Rhaid iddi fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o anghenion cwsmeriaid mewn marchnadoedd presennol a newydd, a rhaid ei datblygu ar y cyd â chynrychiolwyr ar draws pob sector o'r diwydiant bwyd a diod.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod hunaniaeth Gymreig glir sy'n seiliedig ar werthoedd cryf yn bwysig i farchnata cynnyrch o Gymru yn y wlad hon ac yn rhyngwladol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda busnesau i ymchwilio, deall a datblygu llwybrau i'r marchnadoedd hyn, ac mae digwyddiadau fel Blas Cymru yn fodd o arddangos ein cynnyrch a'n busnesau.

Mae ymchwil i'r farchnad yn dylanwadu'n gryf ar y gwaith o ddatblygu'r rhaglen Gwerthoedd Brand Cynaliadwy y cyfeirir ati yng Nghasgliad 7, a bydd yn sylfaen i'r gwaith hwn.

**Casgliad 9**

Mae potensial sylweddol heb ei ddefnyddio mewn rhai marchnadoedd allforio rhyngwladol, fel y gwelir yn adroddiad y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, *International Consumer Buying Behaviour*. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant a, lle bo'n briodol, gydag Adrannau perthnasol Llywodraeth y DU, i fanteisio i'r eithaf ar y potensial hwn ar ôl Brexit.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru (FDWIB) i sbarduno twf uchelgeisiol yn y diwydiant, fel y nodir yn y ddogfen Tuag at Dwf Cynaliadwy, gan gynnwys cynyddu allforion bwyd a diod Cymru.

Mae rhaglen gymorth gynhwysfawr ar waith i ddatblygu allforion bwyd a diod o Gymru, gan gynnwys Clwb Allforio pwrpasol i ddatblygu cymhwysedd a gallu ar gyfer allforion yn y sector. Yn ogystal, darperir cymorth un-i-un pwrpasol ar gyfer datblygu strategaethau allforio, dewis y farchnad a nodi cyfleoedd yn y farchnad o'n rhwydwaith o gynrychiolwyr mewn ystod eang o farchnadoedd byd-eang. Hefyd, rydym yn cynorthwyo cwmnïau i ymweld ac arddangos mewn digwyddiadau masnach allweddol yn y DU ac yn rhyngwladol, er mwyn cynyddu allforion a mewnfuddsoddi.

Mae ein cefnogaeth yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol, gan fod gwerth allforion bwyd a diod yng Nghymru wedi cynyddu 32% ers 2014.

Ym mis Mawrth 2019 fe groesawyd (am yr eildro) y diwydiant bwyd a diod byd-eang i Gymru, gan gynnwys prynwyr allforion o bob rhan o Ewrop, Gogledd America a'r Dwyrain Canol, i'n digwyddiad Blas Cymru, gan godi proffil ein sector ar lefel ryngwladol. Mae'r digwyddiad cyntaf ym mis Mawrth 2017 wedi arwain at werthiant newydd gwerth £17m hyd yma. Mae ein holl waith i ddatblygu allforion o Gymru yn cael ei gefnogi gan rwydwaith swyddfeydd tramor Llywodraeth Cymru, sydd wedi ehangu yn y blynyddoedd diwethaf i gynnwys marchnadoedd fel yr Almaen, Ffrainc, Canada a Qatar.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran Masnach Ryngwladol (DIT), y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO) a swyddogion Defra fel rhan o weithgareddau i sicrhau mwy o fynediad i'r farchnad ar gyfer y sector bwyd a diod yng Nghymru. Un enghraifft o'r gweithgareddau hyn yw ymweliad diweddar gan Is-Lywydd Tsieina, a fu'n ymweld â dwy fferm yng Nghymru a Chanolfan Diwydiant Bwyd ZERO2FIVE ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Hefyd, rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill, gan gynnwys Hybu Cig Cymru, i ddarparu Rhaglen Datblygu Allforion Estynedig dros dair blynedd, er mwyn helpu diwydiant cig coch Cymru i gynnal marchnadoedd allweddol yn Ewrop, yn ogystal â datblygu mynediad i farchnadoedd ehangach. Mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda Phartneriaeth Ardystio Allforion y DU (UKECP) i sicrhau mynediad i farchnadoedd allforio newydd.

Ers dechrau'r rhaglen, mae cyhoeddiadau wedi'u gwneud ynglŷn â dileu'r cyfyngiadau ar allforio cig eidion a chig oen o'r DU i Japan, a chig oen i India a Saudi Arabia. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod diwydiant cig coch Cymru yn manteisio'n llawn ar y proffil uwch a fydd yn deillio o Gwpan Rygbi'r Byd yn yr Hydref. Yn fwy diweddar, mae'r cyfyngiadau ar allforio cig eidion o Brydain i Tsieina wedi'u codi hefyd, gan baratoi'r ffordd i ddechrau allforio cig eidion o Gymru ar ddiwedd y flwyddyn. Amcangyfrifir mai £25m y flwyddyn fydd gwerth hyn i ddiwydiant cig coch Cymru, ac mae'n gam arall ymlaen yn y broses o allforio mwy o'n cynnyrch o safon.

**Casgliad 10**

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ffyrdd o annog pobl Cymru i brynu cynnyrch lleol. Mae enghreifftiau yn rhyngwladol o ymyriadau a fyddai'n arwain yn anuniongyrchol at gynnydd yn y defnydd o gynnyrch lleol. Er enghraifft, yn yr Eidal, rhaid i fwyd wedi'i rewi a gaiff ei weini mewn bwytai nodi hynny'n glir ar fwydlenni.

Mae gan farchnad y DU nodweddion penodol, a byddwn yn parhau i weithio o fewn y cyd-destun hwnnw. Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd yn 2017 ar 'Werth Cymreictod', mae defnyddwyr o'r farn fod gwerth ychwanegol yn deillio o fwyd sy'n cael ei nodi'n benodol fel bwyd sydd wedi'i wneud neu ei gynhyrchu yng Nghymru. Mae siopwyr ledled Prydain yn cysylltu Cymru â bwyd a diod naturiol. Gan fod iechyd a ffresni yn dueddiadau macro ym maes bwyd a diod, mae'r cysylltiad cadarnhaol rhwng Cymru a naturioldeb yn nodwedd werthfawr o gynnyrch Cymreig.

Mae stocio cynnyrch o Gymru mewn archfarchnadoedd wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn twf, a bydd y Cynllun Strategol newydd hefyd yn parhau i ddatblygu ein diwydiant bwyd ar y cyd â'r diwydiant twristiaeth er mwyn sicrhau bod cynnyrch lleol yn elfen allweddol o fwydlenni bwytai.

Manteisiodd 26 o ddigwyddiadau ar gymorth ariannol yn 2018/19 diolch i gynllun grant i gefnogi gwyliau bwyd a marchnadoedd ffermwyr.

**Casgliad 11**
Gall hunaniaeth y DU fod yn fodd o gael mynediad at farchnadoedd byd-eang. Gellid ei defnyddio lle bo'n briodol a lle mae manteision clir i gynhyrchwyr o Gymru.

Cydnabyddir bod manteision sylweddol i gynhyrchwyr o Gymru yn sgil hyrwyddo'r brand Cymreig ochr yn ochr â hunaniaeth y DU mewn rhai marchnadoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag Adran Masnach Ryngwladol Llywodraeth y DU ar y prif Ddigwyddiadau Bwyd a Diod dramor, gan gynnwys ANUGA (dwywaith y flwyddyn yn Colonge), SIAL (dwywaith y flwyddyn ym Mharis), a Gulfood (bob blwyddyn yn Dubai).

Hefyd, mae perthynas agos yn cael ei chynnal rhwng adrannau Cymru a'r DU ar gyfer trefnu Ymweliadau Datblygu Masnach, cynrychiolaeth yn y farchnad a sicrhau bod defnydd llawn yn cael ei wneud o breswylfeydd y DU. Yn ogystal, gwahoddir y Conswl Cyffredinol neu'r Llysgennad i gyfarfod â chynrychiolwyr o Gymru.

Yn ogystal, cefnogir cwmnïau o Gymru trwy'r Gronfa Ymweliadau Datblygu Busnes Tramor i fynychu teithiau masnach a drefnir gan Lywodraeth Cymru, yr Adran Masnach Ryngwladol neu i ymweld â marchnad nad yw'n cael ei thargedu ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru.

**Casgliad 12**
Rhaid i strategaeth newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer bwyd a diod wneud cysylltiadau clir â'i strategaeth ar gyfer twristiaeth yng Nghymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi cyfleoedd i sicrhau y gellir defnyddio cynnyrch o safon o Gymru, yn arbennig Dynodiadau Daearyddol, i hyrwyddo Cymru fel lleoliad bwyd.

O dan y cynllun gweithredu presennol, mae Llywodraeth Cymru wedi llwyddo i dyfu'r fasged o gynhyrchion bwyd a diod gwarchodedig o dan gynlluniau Dangosyddion Daearyddol yr UE. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r cynllun yng Nghymru ac annog a chefnogi busnesau i gyflwyno ceisiadau newydd. Mae twristiaeth yn cynnig cyfleoedd da, ac rydym yn ceisio datblygu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Twristiaeth Bwyd presennol er mwyn gwella'r cynnig bwyd a diod i ymwelwyr mewn cyrchfannau a digwyddiadau allweddol gan gyfleu ymdeimlad o Gymru fel cenedl fwyd.

Mae llawer o ddefnyddwyr yn gweld cynhyrchion bwyd a diod gwarchodedig fel nod ansawdd a chynnyrch sy'n ddilys, yn ddeniadol ac yn eiconig, ac rydym yn credu y bydd cyfleoedd i ddatblygu hyn yn y strategaeth bwyd a diod newydd.

**Casgliad 13**
Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu a chyhoeddi dadansoddiad annibynnol o effeithiolrwydd ei Chynllun Gweithredu ar Fwyd a Thwristiaeth. Dylid cwblhau'r gwaith hwn o fewn y 12 mis nesaf a dylid ei ddefnyddio i lywio unrhyw gynllun olynol.

Bydd llwyddiant y Cynllun Gweithredu ar Fwyd a Thwristiaeth ac ystyriaeth ar gyfer Cynllun Gweithredu ar gyfer Twristiaeth Bwyd olynol yn cael ei ddatblygu ar ôl lansio'r Cynllun Gweithredu ar Fwyd a Diod newydd a'r Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth yn ddiweddarach eleni. Ymgysylltir yn eang â rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol yn y diwydiant, er mwyn nodi ac ystyried yr holl ofynion ar gyfer datblygu strategaeth newydd.

Cynhelir ymgynghoriad llawn ac asesiad o'r effaith ar unrhyw gynigion, yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

**Casgliad 14**
Mae llawer o fanteision yn deillio o Ddynodiadau Daearyddol, gan gynnwys eu gwerth economaidd ac fel arf marchnata. O gofio hyn, mae dyfodol Dynodiadau'r DU yn dilyn Brexit, yn ddealladwy, yn bryder i gynhyrchwyr a chynrychiolwyr y diwydiant. Er bod y cynigion ar gyfer cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU wedi mynd i'r afael rhywfaint â'r pryder hwn, mae amheuaeth o hyd ynghylch statws y cynlluniau hyn ar y llwyfan rhyngwladol. Nid yw'n hysbys eto a fydd y cynlluniau newydd yr un mor ddeniadol i gynhyrchwyr a defnyddwyr â chynllun presennol yr UE.

Rydym yn cydnabod yn llawn gwerth economaidd PFN/GI i gynhyrchwyr Cymru, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod cynnyrch â statws presennol yn gallu parhau i gael ei ddiogelu ar ôl i ni ymadael ag Ewrop. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chynhyrchwyr i'w helpu i bontio i'r cynllun Dynodiadau Daearyddol newydd y DU cyn gynted ag y bydd Llywodraeth y DU yn gwybod sut y byddwn yn ymadael ag Ewrop, gyda chytundeb neu heb gytundeb.

**Casgliad 15**

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod buddiannau cynhyrchwyr bwyd yng Nghymru yn cael eu cynrychioli mewn trafodaethau â Llywodraeth y DU wrth i gynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU gael eu datblygu. Rydym yn disgwyl i Lywodraeth Cymru chwarae rôl ystyrlon nid yn unig wrth weinyddu'r cynlluniau newydd, ond wrth eu datblygu. Mae hyn yn cynnwys dylunio logo Dynodiadau Daearyddol newydd y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r mater o EUPFN/Dynodiadau Daearyddol, ac mae'n cyfrannu'n llawn at weithgorau sy'n helpu i ddatblygu'r Dynodiadau Daearyddol newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn aelod llawn o weithgor logo Dynodiadau Daearyddol y DU, ac rydym wedi sicrhau bod Llywodraeth y DU wedi gofyn am adborth yn uniongyrchol gan fusnesau sydd â statws PFN presennol. Mae Halen Môn yn gynrychiolydd enwebedig o Gymru ar grŵp cynhyrchwyr ledled y DU sy'n gweithio gyda'r asiantaeth ddylunio a benodwyd gan Lywodraeth y DU i ddatblygu logo newydd Dynodiadau Daearyddol y DU. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i fanylu ar ofynion penodol ar gyfer logo newydd Dynodiadau Daearyddol y DU, a bydd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod unrhyw logo yn dderbyniol i Gymru.

**Casgliad 16**

Bydd sefydlu cydnabyddiaeth brand o dan gynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU yn heriol. Bydd yn cymryd amser a bydd angen buddsoddiad. Bydd strategaeth gyfathrebu effeithiol ar gyfer lansio cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU yn hanfodol i hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith cynhyrchwyr a defnyddwyr ar lefel ddomestig a rhyngwladol. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro pa rôl y bydd yn ei chwarae wrth ddatblygu a chyflwyno'r strategaeth hon.

Mae'r trefniadau newydd ar gyfer Dynodiadau Daearyddol y DU yn ymwneud â gweithgor neu banel ar draws llywodraeth y DU, a chaiff y materion hyn eu hystyried unwaith y bydd y grŵp yn weithredol.

Llywodraeth Cymru yw'r unig weinyddiaeth ddatganoledig sydd â rhaglen gymorth bwrpasol ar gyfer cynhyrchwyr PFN. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau hyrwyddo, cysylltiadau cyhoeddus a chymorth technegol. Nid oes unrhyw weinyddiaeth ddatganoledig arall yn cynnig y lefel hon o gymorth

ar hyn o bryd. Byddwn yn datblygu hyn ac rydym wedi ymrwymo i ariannu'r rhaglen yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ynglŷn â sut y gallwn gydweithio ymhellach i godi ymwybyddiaeth defnyddwyr o logos newydd Dynodiadau Daearyddol y DU ar ôl iddynt gael eu penderfynu.

**Casgliad 17**

Mae diffyg eglurder ynghylch p'un a fydd cynhyrchion Dynodiad Daearyddol y DU yn parhau i gael eu diogelu yn yr UE ar ôl Brexit. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch yr effaith ar gynhyrchwyr, ac ar y diwydiant yn ehangach, os na chaiff amddiffyniad ei gynnal. Dylai Llywodraeth Cymru:

- ddarparu manylion am unrhyw waith a wnaed i asesu'r effaith ar gynhyrchwyr os na chaiff amddiffyniad o fewn yr UE ei gynnal, a'r camau y mae'n eu cymryd i liniaru hyn, a

- chyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU gyda'r bwriad o sicrhau bod cynhyrchion Dynodiad Daearyddol y DU yn parhau i gael eu gwarchod yn yr UE ar ôl Brexit.

Gall gwledydd y tu allan i'r UE (trydydd gwledydd) fanteisio ar gynllun EUPFN. Er enghraifft, mae coffi o Columbia yn cael ei amddiffyn ym marchnad yr UE fel Dynodiad Daearyddol. Nid oes unrhyw reswm pam na allai cynhyrchion PFN Cymru geisio cael eu hamddiffyn fel trydedd wlad ar ôl i ni ymadael os nad oes cytundeb yn cael ei sicrhau. Y prif bwnc fydd materion eraill yn ymwneud â masnach megis tariffau a rhwystrau eraill nad ydynt yn ymwneud â thariffau a allai olygu bod allforio cynhyrchion o Gymru sy'n cael eu hamddiffyn yn heriol. Mae'r broses o ymgysylltu â rhanddeiliaid a thrafod yn rheolaidd â Llywodraeth y DU ar lefel swyddogion a Gweinidogion yn parhau. Hefyd, mae Nodau Masnach yn darparu amddiffyniad tebyg yn y farchnad yn erbyn twyll a dynwared, ac rydym yn ymwybodol bod ein prif gynnyrch allforio hefyd wedi ceisio sicrhau statws nod masnach mewn marchnadoedd allforio sylweddol er mwyn atgyfnerthu'r amddiffyniad sydd ar gael iddynt yn y farchnad.

**Casgliad 18**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn allweddol yn cynyddu nifer y Dynodiadau Daearyddol yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. Dylai barhau i adeiladu ar y llwyddiant hwn. Yn sgil sefydlu cynlluniau Dynodiadau Daearyddol newydd y DU, dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar gynyddu nifer y Dynodiadau yng Nghymru ar ôl Brexit, a'r ymagwedd tuag at hyn. Wrth wneud hynny, dylai egluro pa gymorth fydd ar gael i gynhyrchwyr sy'n dymuno cofrestru gyda chynlluniau newydd y DU a chyda chynllun yr UE.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu nifer y cynhyrchion â Dynodiad Daearyddol yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, a bydd yn parhau i gefnogi ein cynhyrchwyr gan ein bod yn gwerthfawrogi'n llawn gwerth cynhenid Dynodiadau Daearyddol Cymru i economi, diwylliant a threftadaeth Cymru, ac o safbwynt cydnabyddiaeth fyd-eang ehangach i Gymru.

**Casgliad 19**

Bydd Llywodraeth y DU yn ceisio trafod trefniadau masnach gyda'r Unol Daleithiau ar ôl Brexit. O ystyried gwrthnawsedd hanesyddol yr Unol Daleithiau tuag at Ddynodiadau Daearyddol, dylai Llywodraeth Cymru geisio ymrwymiad gan Lywodraeth y DU y bydd diogelu'r Dynodiadau yn flaenoriaeth mewn unrhyw drafodaethau o'r fath.

Mae trafodaethau masnach yn enghraifft o gymhwysedd a gedwir yn ôl gan Lywodraeth y DU. Bydd Llywodraeth Cymru yn pwysleisio'r angen am amddiffyn ein cynnyrch ym marchnad yr Unol Daleithiau, a'i amddiffyn yn erbyn twyll a chamddefnyddio gan gwmnïau o'r Unol Daleithiau yn ein marchnad. Mae'n well gan Lywodraeth Cymru sicrhau bod Dynodiadau Daearyddol yn cael eu cydnabod, a bydd yn herio Llywodraeth y DU i sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried. Gellir ystyried darparu cymorth i fusnesau geisio sicrhau nod masnach neu fathau eraill o amddiffyniad IP yn y farchnad lle bo angen.

**Casgliad 20**

Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy i gryfhau a datblygu seilwaith yn y system fwyd. Dylai Llywodraeth Cymru gynnal ymarfer mapio i asesu'r capasiti prosesu presennol yng Nghymru gyda'r bwriad o nodi bylchau. Dylai canlyniad y gwaith hwn lywio datblygiad strategol cyfleusterau prosesu ledled Cymru, gan ganolbwyntio ar weithgareddau gwerth ychwanegol. Dylid rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â bylchau mewn capasiti.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith ymchwil yn rheolaidd i helpu i lywio datblygiad strategol cyfleusterau prosesu yng Nghymru.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi ymchwilio i'r gwaith o gynhyrchu dofednod ac wyau, sydd wedi cynyddu hyder ar gyfer cyfleoedd pellach a thwf yn y farchnad ar gyfer y cynhyrchion hyn.

Hefyd, cwblhawyd astudiaeth ddichonoldeb gennym i ymchwilio i'r dewisiadau a'r heriau sy'n gysylltiedig â datblygu'r sector prosesu llaeth yng Nghymru. Yn ddiweddar, mae astudiaethau ychwanegol wedi edrych ar ddewisiadau ar gyfer cyfnewid mewnforion, gan amlygu cyfleoedd gwirioneddol i Gymru ychwanegu gwerth mewn rhai meysydd, megis prosesu microsglodion a dofednod Cymru.

Rydym yn darparu cymorth grant fel bod busnesau cynhyrchu bwyd yn gallu buddsoddi mewn peiriannau a chyfleusterau prosesu.

Mae astudiaethau pellach a gwaith ein menter Glwstwr hefyd yn helpu cynhyrchwyr i gydweithio er mwyn ychwanegu gwerth at gynnyrch cynradd Cymru, megis gyda gwinllannoedd yng Nghymru i sefydlu gwindy Cymreig.

### Casgliad 21

Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu grŵp a arweinir gan y diwydiant i ystyried ymyriadau polisi posibl gyda'r nod o gynyddu capasiti prosesu yng Nghymru, gyda ffocws ar weithgareddau gwerth ychwanegol. Dylai'r grŵp hwn asesu, yn benodol, y cyfleoedd a'r risgiau sy'n deillio o Brexit, gan gynnwys y potensial i gynyddu capasiti prosesu yn y diwydiannau pysgota a dyframaeth.

Mae mwyafrif aelodau Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, a sefydlwyd yn 2014/15 yn dilyn prif argymhelliad y Cynllun Gweithredu ar gyfer Bwyd a Diod, yn cynrychioli'r diwydiant bwyd.

Mae llawer o'r camau gweithredu yn cefnogi twf busnesau a datblygu masnach i geisio cyrraedd lefel drosiant o £7 biliwn, wedi'i alluogi'n rhannol trwy gynyddu capasiti prosesu. Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd yn darparu cymorth grant er mwyn galluogi hyn, ac mae'r Bwrdd yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu a monitro'r cynllun. Hefyd, mae'r Bwrdd yn darparu arweiniad a chefnogaeth ar gyfer twf parhaus rhwydweithiau a chlystyrau busnes, ac mae'n datblygu cyfleoedd parod ar gyfer buddsoddwyr fel bod busnesau bwyd a diod yn gallu cynyddu'r gwaith prosesu. Byddant yn cynnal cynhadledd cyn i ni ymadael â'r Undeb Ewropeaidd er mwyn hyrwyddo'r maes hwn ymhellach.

### Casgliad 22

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu priodoldeb y cymorth presennol sydd ar gael i fusnesau prosesu bwyd newydd a phresennol. Dylai gynnwys asesiad o'r graddau y mae cymorth cyfredol yn mynd i'r afael â'r heriau penodol a wynebir gan fusnesau mewn ardaloedd gwledig sy'n ceisio ehangu.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i resymoli a diweddaru rhaglenni ariannu cyfredol pan fyddant yn dod i ben, er mwyn darparu cymorth grant y gellir ei addasu a'i dargedu yn ymwneud â rhinweddau'r achos busnes er budd llesiant Cymru. Bydd buddsoddi yn y dyfodol yn cynnig cymorth ariannol hyblyg, gan sicrhau manteision i fusnesau o bob maint, ym mhob lleoliad, yn ystod eu taith twf. Fodd bynnag, gan fod setliad ariannol Cymru yn y dyfodol yn parhau'n ansicr, ni allwn gadarnhau lefelau cymorth yn y dyfodol nes bod Llywodraeth y DU yn egluro'r sefyllfa. Wedi dweud hynny, bydd ein cynlluniau ar gyfer cymorth i fusnesau prosesu bwyd yn y dyfodol yn ddigon cadarn i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i amgylchiadau ariannol cyfnewidiol. Mae'r Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd wedi cael ei adolygu'n ddiweddar: https://llyw.cymru/cynllun-buddsoddi-mewn-busnesau-bwyd-adolygiad

**Casgliad 23**

Clywodd y Pwyllgor fod mynediad at lafur yn her allweddol i'r diwydiant bwyd a diod, a'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch. Mae'r rhain i gyd yn dibynnu'n drwm ar weithwyr mudol yr UE. Bydd newidiadau i'r polisi mewnfudo ar ôl Brexit yn arwain at system lawer mwy cyfyngol ar gyfer gweithwyr mudol yr UE sydd â sgiliau isel a gallai arwain at brinder sylweddol o weithwyr yn y diwydiannau hyn. Gall rhai sectorau, er enghraifft, y sector prosesu cig coch, fod yn arbennig o agored i niwed, o gofio'r anawsterau penodol y maent yn eu hwynebu wrth ddenu gweithwyr yn y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar y materion a fydd yn effeithio ar Gymru a'r DU gyfan pan fyddwn yn ymadael â'r UE, gan gynnwys argaeledd gweithwyr mudol â sgiliau isel. Byddwn yn parhau i wneud hyn er mwyn sicrhau nad yw busnesau yng Nghymru o dan unrhyw fath o anfantais.

Yn ddiweddar, mae'r Swyddfa Gartref wedi cynnwys milfeddygon yn y Rhestr o Alwedigaethau â Phrinder Gweithwyr, a bydd hyn yn cynorthwyo'r sector prosesu cig coch yng Nghymru.

Darparodd Is-adran Bwyd Llywodraeth Cymru Barth Sgiliau yn RWAS eleni er mwyn codi ymwybyddiaeth o yrfaoedd yn y diwydiant bwyd a denu pobl ifanc a'r rhain sy'n ystyried newid gyrfa i ystyried y maes cynhyrchu bwyd.

**Casgliad 24**

Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei safbwynt ar system fewnfudo newydd arfaethedig Llywodraeth y DU. Yn benodol, y trothwy isafswm cyflog arfaethedig o £30,000 ar gyfer gweithwyr medrus canolig ac uchel. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru egluro'r effaith y mae'n disgwyl i'r cynigion hyn ei chael ar y diwydiant bwyd a diod, a'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru.

Mae rhaglen ymgysylltu 12 mis wedi'i sefydlu sy'n cynnwys uwch swyddogion o Lywodraeth Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU i ystyried materion fel y trothwy cyflog.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir bod angen dull gweithredu hyblyg, wedi'i reoli ym maes mewnfudo na fydd yn niweidio ein ffyniant, ac mae'n galw am drothwy o £20,000 ar gyfer cyflog y rhai â fisa Haen 2. Rydym yn parhau i ddadlau dros hyn wrth drafod â Llywodraeth y DU, gan annog newidiadau yn gynnar yn y broses fel bod cyflogwyr yn gallu mabwysiadu dull strwythuredig o recriwtio.

**Casgliad 25**

Efallai y bydd rhaglen waith barhaus Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phrinder sgiliau yn y gweithlu yng Nghymru, gan gynnwys ei strategaeth, *Trawsnewid Sgiliau yn y Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru*, yn gwella

rhywfaint ar argaeledd llafur yn y diwydiant bwyd a diod, a'r diwydiant twristiaeth a lletygarwch, yn y tymor hwy. Fodd bynnag, mae'n aneglur sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu lliniaru effaith cyfyngiadau ar fynediad i weithwyr mudol yr UE ar y diwydiannau hyn yn y cyfnod yn union ar ôl Brexit ac yn y tymor byrrach. Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro'r mater hwn fel mater o frys.

Mae argaeledd sgiliau a llafur yn y diwydiant bwyd a diod yn fater allweddol i Lywodraeth Cymru. Rydym yn parhau i herio'r Swyddfa Gartref ynglŷn â'r trothwy £30,000 ar gyfer cyflog y rhai â fisa Haen 2, ac rydym yn galw am bolisi ymfudo yn y dyfodol yn seiliedig ar gefnogi'r economi, gan ein galluogi i ddenu gweithwyr i'r ardaloedd priodol. Byddai gostwng y trothwy i £20,000 yn lleihau'r effaith ar economi Cymru rywfaint, gan fod llawer o'r gweithwyr llai crefftus yn y sector bwyd a diod yn ennill cyflog sy'n agos at y lefel hon. Ategir hyn gan dystiolaeth a gomisiynwyd gennym gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, ac mae'r syniad yn cael ei chefnogi'n eang gan fusnesau.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Academi Sgiliau Genedlaethol ar gyfer Bwyd a Diod, y Ganolfan Byd Gwaith a'r Adran Gwaith a Phensiynau ar gynllun peilot sy'n dwyn ynghyd cwmnïau bwyd a diod lleol a darpar weithwyr cyflogedig. Mae'r gwaith o gyflwyno'r cynllun wedi dechrau trwy'r Rhaglen Sgiliau Cyflogadwyedd, gan arwain at fwy o sgiliau cyflogadwyedd a swyddi parhaol i rai. Diolch i hyblygrwydd y rhaglen, gallwn ymateb i ddatblygiadau lleol a rhanbarthol yn y farchnad lafur, ac mae Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir cyflwyno'r cynllun peilot i gwmnïau bwyd a diod eraill ledled Cymru.

**Lesley Griffiths AC**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni, a Materion Gwledig

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

MA - P/LG/2876/19

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

12 Awst 2019

Annwyl Mike,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor yn dilyn ei ymchwiliad i bolisïau a chynigion yn ymwneud â llygredd plastig a gwastraff deunydd pecynnu.

Mae'r argymhellion yn berthnasol i'n ddau bortffolio, ynghlwm fe welwch ymatebion iddynt.

Cofion,

Lesley Griffiths Hannah Blythyn

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**Hannah Blythyn AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 1: Mae angen gwneud mwy o waith ymchwil i fynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth mewn perthynas â nanoblastigau a microblastigau yn nyfroedd Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gellir cefnogi ymchwil o'r fath, fel bod yr wybodaeth ddiweddaraf yn llywio ei hymyriadau polisi.**

**Derbyn**

Mae sbwriel môr yn her fyd-eang y mae angen ymdrin â hi mewn partneriaeth ac ar raddfa fyd-eang. Mae microblastigau mewn dŵr yn deillio o dro i dro o gynhyrchion a deunyddiau gwastraff yn pydru, yn cynnwys sbwriel a adewir ar ein traethau ac ar y tir. Felly, rydym yn parhau i gymryd camau i leihau faint o blastig a gwastraff a geir yn nyfroedd Cymru. Yn 2017, sefydlwyd y Bartneriaeth Moroedd Glân gan Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu a gweithredu Cynllun Gweithredu Sbwriel Môr cyntaf Cymru. Crëwyd y Cynllun Gweithredu gydag atal, cydweithredu ac atebion hirdymor yn egwyddorion craidd iddo. O ran bylchau mewn gwybodaeth, aethom ati i gomisiynu Cadwch Gymru'n Daclus i fynd i'r afael â phrosiect ymchwil a oedd â'r nod o ychwanegu at ein sylfaen tystiolaeth mewn perthynas â sbwriel môr. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn ategu'r modd y rhoddir y Cynllun Gweithredu Sbwriel Môr ar waith.

Mae Strategaeth Tystiolaeth Forol Cymru yn nodi bod sbwriel môr yn un o blith llawer o flaenoriaethau tystiolaeth ar gyfer amgylchedd morol. Ar ôl iddi gael ei chyhoeddi, bydd y strategaeth yn ceisio annog a chasglu gwybodaeth ar gyfer gwella ein dealltwriaeth o ffynonellau a lledaeniad sbwriel môr yn nyfroedd Cymru er mwyn cyfarwyddo mesurau a pholisïau yn y dyfodol. I ategu'r gwaith hwn, trwy gyflawni Strategaeth Forol y DU mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU ac OSPAR i ddatblygu dangosydd newydd i fonitro microblastigau mewn gwaddodion morol. Bydd y dangosydd newydd hwn yn gwella ein dealltwriaeth o'r niwed posibl y gall microblastigau fod yn ei wneud i'r amgylchedd morol, ac fe allai gyfarwyddo mesurau yn y dyfodol ar gyfer ymdrin â hyn.

Fodd bynnag, sylweddolwn fod angen gwneud mwy o waith ymchwil i weld beth yw effaith nanoblastigau a microblastigau yn nyfroedd Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – dim ond pan fydd gennym well syniad ynghylch elfennau tebygol prosiect ymchwil newydd arfaethedig y gellir pennu'r goblygiadau ariannol o dderbyn yr argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gellir defnyddio dull Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn y diwydiant dillad, gyda'r nod penodol o leihau lefel y microffibrau a ryddheir wrth olchi. Dylai ymgymryd â'r gwaith archwilio hwn ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y chwe mis nesaf, gan nodi ei barn gychwynnol ar y cynnig hwn.**

**Derbyn**

Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i archwilio ffyrdd o leihau lefel y microffibrau a ryddheir o ddillad wrth eu golchi. Efallai fod gan ddull Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr mewn perthynas â thecstilau y potensial i sbarduno dull mwy cylchol yn y diwydiant dillad o ran ailddefnyddio ac ailgylchu ac annog arloesi, fel atebion newydd i leihau faint o ficroffibrau a gaiff eu rhyddhau. Fel y nodir yn yr ymateb diweddar i'r ymgynghoriad ar Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr dros ddeunydd pecynnu, y ffordd orau o gyflwyno dull o'r fath ar lefel y DU yw sicrhau cysondeb ac eglurder i fusnesau a defnyddwyr.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd cyllidebau presennol yn talu costau'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a ellir cyflwyno deddfwriaeth i gyfyngu mynediad at rai cynhyrchion sy'n cyfrannu at lygredd microblastigau drwy'r llwybrau trin dŵr gwastraff, megis cadachau gwlyb nad ydynt yn fioddiraddiadwy. Dylai ymgymryd â'r gwaith archwilio hwn ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y chwe mis nesaf, gan nodi ei barn gychwynnol ar y cynnig hwn.**

**Derbyn**

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i geisio diwallu gofynion Cyfarwyddeb Plastigau Untro'r Undeb Ewropeaidd, sy'n cynnwys cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer rhai eitemau plastig untro, yn cynnwys cadachau gwlyb. Caiff eitemau eraill y mae angen gweithredu arnynt dan y Gyfarwyddeb Plastigau Untro eu rhestru dan Argymhelliad 8 isod.

Rydym hefyd yn cefnogi rhaglen ddraenio'r 21ain ganrif a gaiff ei harwain gan Dŵr Cymru Welsh Water ar ran sector dŵr y DU. Mae rhaglen ddraenio'r 21ain ganrif yn cynnwys annog cwsmeriaid i beidio â rhoi cynhyrchion sy'n cynnwys plastigau, fel cadachau gwlyb, i lawr y toiled, gan eu bod yn blocio carthffosydd, ac mae'n ymgyrchu i gael labeli clir ar gadachau gwlyb yn rhybuddio nad ydynt yn addas i'w fflysio, er mwyn helpu cwsmeriaid i ddeall na ddylid eu rhoi i lawr y toiled. Rydym hefyd yn cefnogi ymgyrch 'Stop Cyn Creu Bloc' Dŵr Cymru Welsh Water, sy'n rhoi gwybod i gwsmeriaid beth yw'r costau a'r llygredd a achosir trwy roi cadachau gwlyb a chynhyrchion eraill sy'n cynnwys plastigau i lawr y toiled.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd cyllidebau presennol yn talu costau'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 4: Roeddem yn bryderus o glywed am y materion yn ymwneud â defnyddio mewnlenwad teiars ar gaeau chwaraeon a mannau chwarae. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu rhagor o waith ymchwil yn y maes hwn a dylai ystyried sut y gall gynorthwyo awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol defnyddio mewnlenwad teiars.**

**Derbyn**

Wrth symud tuag at economi gylchol, mae sicrhau bod modd defnyddio cynhyrchion cyhyd ag y bo modd, a dod o hyd i ffyrdd o annog eu hailddefnyddio ar ôl iddynt gyrraedd diwedd eu hoes, yn hollbwysig. Felly, rydym yn croesawu'r ffaith fod y Pwyllgor yn ystyried materion yn ymwneud â llygredd sy'n deillio o ddefnyddio teiars a'r modd y rheolir gwastraff teiars ar ôl iddynt gyrraedd diwedd eu hoes.

O ran defnyddio mewnlenwad teiars ar gaeau chwaraeon, ceir Protocol Ansawdd yn ymwneud â defnyddio Deunyddiau Rwber sy'n Deillio o Deiars. Pan fydd deunyddiau rwber sy'n deillio o deiars yn cael eu defnyddio'n rhydd wrth ymyl derbynyddion dŵr (yn cynnwys afonydd, nentydd, llynnoedd, pyllau a dŵr daear), yna dylid cadw at y canllawiau a nodir yn Atodiad D y Protocol Ansawdd. Os oes posibilrwydd fod mewnlenwad teiars ar gaeau chwaraeon a mannau chwarae yn llygru cwrs dŵr, mae Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 yn nodi y gellir erlyn unrhyw berson sy'n achosi neu'n caniatáu'n fwriadol weithgaredd gollwng i ddŵr neu weithgaredd dŵr daear. Mae gweithgareddau gollwng i ddŵr yn cynnwys gollwng deunyddiau gwenwynig, niweidiol neu lygrol, neu ddeunyddiau gwastraff solet, i ddyfroedd arfordirol a dyfroedd croyw mewndirol ac i ddyfroedd tiriogaethol perthnasol. Os amheuir o gwbl fod y rheoliadau hyn wedi'u torri, dylid rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd cyllidebau presennol yn talu costau'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio dulliau o leihau faint o offer pysgota a gaiff eu taflu i'r môr ac annog adfer offer pysgota coll, gan gynnwys mesurau codi ymwybyddiaeth a'r defnydd o geodagiau a thechnoleg sonar ar gyfer olrhain offer. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried y posibilrwydd o gynnwys offer pysgota mewn Cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn y dyfodol.**

**Derbyn**

Os caiff offer pysgota eu colli yn y môr, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai hynny arwain at effeithio ar yr amgylchedd morol. Oherwydd natur agored ein cefnforoedd a'n moroedd ac amodau hydroddynamig naturiol (cerhyntau), caiff offer coll eu hystyried fel mater byd-eang a rhaid inni gynyddu ein sylfaen tystiolaeth er mwyn deall ffynhonnell yr offer coll. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda'r diwydiant pysgota i ymdrin â'r mater.

Yn ogystal â gweithio gyda'r diwydiant pysgota, ym mis Mai 2019 daeth y Gyfarwyddeb Plastigau Untro i rym. Mae'r Gyfarwyddeb hon yn cynnwys nifer o ofynion, gan gynnwys yr angen i gyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr. Caiff y cynllun hwn ei anelu at gynhyrchwyr, a bydd offer sy'n cynnwys plastigau'n cael eu hystyried ar gyfer y cynllun. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i roi'r Gyfarwyddeb a'r cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar waith ac archwilio atebion ar gyfer ymdrin ag offer pysgota sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd cyllidebau presennol yn talu costau'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru baratoi a chyhoeddi strategaeth deng mlynedd, gynhwysfawr ac uchelgeisiol gyda'r nod o leihau llygredd plastig. Dylid datblygu'r strategaeth gyda'r rhanddeiliaid a dylai gynnwys targedau a cherrig milltir. Rhaid iddi wneud cysylltiadau clir â meysydd polisi eraill, fel rheoli gwastraff a chaffael "gwyrdd".**

**Derbyn**

Ein nod yw symud tuag at economi gylchol yng Nghymru, lle y gellir osgoi llygredd plastig a phob math arall o wastraff a lle y byddwn yn parhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd ag y bo modd. Mae hyn yn rhan allweddol o'r camau y mae angen eu cymryd mewn perthynas â newid hinsawdd a bydd hefyd yn esgor ar gyfleoedd economaidd sylweddol wrth bontio i economi carbon isel.

Fel Llywodraeth, cytunwn fod yr her sydd ynghlwm wrth lygredd plastig yn rhan hanfodol o'n hymdrechion ac y bydd angen dull cynhwysfawr ac uchelgeisiol o ymdrin â hyn. Fodd bynnag, fe all y materion sy'n gysylltiedig â llygredd plastig fod yn berthnasol i ddeunyddiau eraill, gan fod defnyddio eitem unwaith yn unig neu beidio â chael gwared â deunyddiau'n briodol, yn y bôn, yn arwain at lygredd amgylcheddol ac yn gwastraffu adnoddau gwerthfawr. Felly, bydd yn rhaid i ddull strategol nid yn unig ymdrin â'r mater hwn o safbwynt plastigau, ond hefyd o safbwynt deunyddiau eraill, gan gydnabod bod ein ffordd o ddefnyddio eitemau unwaith yn rhan greiddiol o'r broblem.

Wrth ddiwygio ein Strategaeth Dim Gwastraff, ein nod felly yw nid yn unig ymdrin â llygredd plastig, ond hefyd edrych ar ffrydiau gwastraff eraill. Wrth wneud hynny, cytunwn fod yn rhaid cael cysylltiadau clir â meysydd polisi ar draws y llywodraeth, yn cynnwys caffael.

Bydd y strategaeth yn adeiladu ar y mesurau sydd eisoes wedi'u cyflwyno i daclo gwastraff plastig, fel gwelliannau i ailgylchu sy'n cynnwys casglu plastigau o aelwydydd ac annog dewisiadau eraill sy'n osgoi defnyddio plastig fel Cenedl Ail-lenwi ac ymgorffori camau fel y gwaharddiad arfaethedig ar rai cynhyrchion plastig untro.

Ymhellach, rydym yn datblygu rhaglen waith a fydd yn arwain at ddull mwy cyfannol o daclo sbwriela ar draws Cymru, ni waeth be fo'r deunydd, trwy gyfrwng Cynllun Atal Sbwriel newydd ar gyfer Cymru. Er mwyn helpu i ddatblygu a chyflwyno hyn, mae Grŵp Cynghori newydd, lle y gwneir defnydd o arbenigedd a gwybodaeth amrywiaeth eang o randdeiliaid, hefyd wedi'i sefydlu. Bydd y Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol yn cyhoeddi datganiad yn amlinellu nodau a dyheadau cyffredinol y Cynllun Atal Sbwriel erbyn diwedd 2019.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd cyllidebau presennol yn talu costau'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 7: Rhaid i'r strategaeth arfaethedig sicrhau bod polisïau i leihau llygredd plastig yn blaenoriaethu lleihau, yna ailddefnyddio, gydag ailgylchu fel y dewis olaf os na ellir cyflawni'r rhain.**

**Derbyn**

Mae'r hierarchaeth gwastraff yn sail i'n '*Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff*' a gyhoeddwyd yn 2010, a bydd yn parhau i fod yn ganolog i'n nodau wrth symud tuag at economi gylchol yng Nghymru. Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd gyfreithiol dan Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yr UE (Cyfarwyddeb 2008/98/EC) i roi'r hierarchaeth gwastraff ar waith. Fodd bynnag, wrth bontio i gymdeithas dim gwastraff, carbon isel mae'n hanfodol inni ymdrin ag unrhyw wastraff anailgylchadwy, untro mor effeithlon ag y bo modd, gan gymryd camau i leihau'r defnydd ohono yn ogystal.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd cyllidebau presennol yn talu costau'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 8: Dylai Llywodraeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno deddfwriaeth yng Nghymru i leihau llygredd a gwastraff plastig, yn seiliedig ar y model ar gyfer lleihau allyriadau yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn chwe mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.**

**Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi amrywiaeth o fesurau deddfwriaethol ar waith er mwyn helpu i leihau, gwahardd neu gyfyngu ar werthiant nifer o eitemau plastig untro a gaiff eu taflu'n gyffredin i'r sbwriel, yn cynnwys ffyn cotwm, cwpanau ar gyfer diodydd a gwellt plastig. Ymhellach, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a Gweinyddiaethau Datganoledig eraill i helpu i gyflawni gofynion Cyfarwyddeb Plastigau Untro'r Undeb Ewropeaidd, yn cynnwys:

- Cyflwyno cynllun Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ar gyfer rhai cynwysyddion bwyd plastig untro, pacedi a phapurau lapio, cynwysyddion diodydd, bagiau plastig ysgafn, cadachau gwlyb, balŵns a chynhyrchion tybaco â hidlyddion;

- Sicrhau bod cynwysyddion diodydd plastig untro sy'n gallu dal hyd at dri litr yn cael eu cynllunio mewn modd a fydd yn sicrhau bod eu caeadau a'u capiau'n aros yn sownd yn y cynwysyddion; a

- Gwneud yn siŵr fod deunyddiau pecynnu cynhyrchion hylendid menywod, cadachau gwlyb, hidlyddion tybaco a chwpanau ar gyfer diodydd â gwybodaeth arnynt yn nodi eu bod yn cynnwys plastigau ac yn nodi'r dewisiadau priodol ar gyfer rheoli gwastraff.

Ar gyfer yr allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â phlastig, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn nodi gofynion fframwaith lleihau allyriadau ar gyfer yr holl allyriadau a gynhyrchir yng Nghymru, yn cynnwys rhai sy'n gysylltiedig â gweithgynhyrchu, defnyddio a gwaredu plastig ac achosion yn ymwneud â phlastig sy'n deillio o danwydd ffosil. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru adrodd ar yr allyriadau y gellir eu priodoli'n rhesymol i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd cyllidebau presennol yn talu costau'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 9: Ni waeth beth yw canlyniadau'r ymgynghoriad ar y cyd â DEFRA ac unrhyw benderfyniadau dilynol gan Lywodraeth y DU, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno cynllun cynhwysfawr ar gyfer Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru, fel man cychwyn, ddefnyddio'r adroddiad a gomisiynwyd gan Eunomia.**

**Derbyn mewn egwyddor**

Cafodd yr ymgynghoriad a roddwyd ar waith gennym ar y cyd â llywodraethau eraill yn y DU ynghylch cyflwyno Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr gefnogaeth eang. Fel Llywodraeth, rydym yn parhau i fod yn hollol ymrwymedig i'r dull, yn dilyn gwaith ymchwil y gwnaethom ei gomisiynu yn 2017 gan Eunomia. Bydd Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr yn helpu i gymell lleihad yn y defnydd a wneir o ddeunyddiau pecynnu yn ogystal â chymell gwell defnydd o adnoddau – mae'r ddwy elfen hyn yn hanfodol wrth inni symud tuag at economi fwy cylchog ac yn bwysig o ran y camau a gymerwn mewn perthynas â newid hinsawdd.

Mae'r system bresennol sy'n ymwneud â chyfrifoldeb cynhyrchwyr pecynnu ar waith ledled y DU a dengys yr ymatebion i'r ymgynghoriad gefnogaeth eang i hyn barhau, gan y byddai hynny'n gliriach ac yn fwy cyson i ddefnyddwyr a busnesau fel ei gilydd. Felly, rydym yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i'r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, pe bai bwriadau polisi presennol y gwledydd unigol yn newid cyn i'r system gael ei rhoi ar waith, byddwn yn ystyried y camau y gellir eu cymryd yng Nghymru.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd cyllidebau presennol yn talu costau'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Cynllun Dychwelyd Ernes sy'n berthnasol i'r amrywiaeth ehangaf o gynwysyddion, fel na roddir unrhyw gyfyngiadau ar faint y cynwysyddion sy'n gymwys ar gyfer y cynllun. Os bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu cyflwyno cynllun sydd â chwmpas llai, dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ar gynllun penodol i Gymru, gyda Chynllun Dychwelyd Ernes sydd â'r cwmpas ehangaf fel yr opsiwn a ffefrir ac a argymhellir.**

**Derbyn mewn egwyddor**

Dangosodd canlyniad ein hymgynghoriad diweddar a gynhaliwyd ar y cyd ynghylch cynigion ar gyfer Cynllun Dychwelyd Ernes yn ymwneud â chynwysyddion diodydd fod yna gefnogaeth eang dros gyflwyno cynllun o'r fath.  Wrth fwrw ymlaen â hyn, byddwn yn gweithio i sicrhau bod y dull ariannol yn iawn i Gymru, gan gydnabod ein bod yn cychwyn o linell sylfaen wahanol, er mwyn i'r Cynllun Dychwelyd Ernes adeiladu ar y cynnydd sylweddol yr ydym wedi'i wneud gydag ailgylchu hyd yn hyn.

Ni fyddai'n briodol ymrwymo i gwmpas terfynol Cynllun Dychwelyd Ernes cyn cynnal dadansoddiad manylach i ategu datblygiad y cynllun, ond rydym wedi nodi'r opsiwn a ffefrir gan y Pwyllgor. O safbwynt datblygu Cynllun Dychwelyd Ernes yn llwyddiannus yng Nghymru, rydym yn awyddus i sicrhau y bydd yn ategu ein seilwaith presennol o ran casglu ac ailgylchu – seilwaith sydd wedi galluogi Cymru i ddod yn arweinydd byd-eang pan ddaw hi'n fater o ailgylchu gwastraff y cartref.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd cyllidebau presennol yn talu costau'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 11: Rydym yn croesawu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y Gronfa Economi Gylchol. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut y caiff y gronfa ei monitro; sut y bydd yn asesu effaith ac effeithiolrwydd y gronfa; a sut y bydd yn asesu a yw'r gronfa wedi darparu gwerth am arian.**

**Derbyn**

Caiff y Gronfa ei rheoli a'i monitro gan Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau yng Nghymru (WRAP Cymru), sydd â phrofiad helaeth o gyflawni cynlluniau o'r fath ar draws y DU. O ran rheoli'r gronfa, ceir darpariaeth ar gyfer swyddog grantiau llawn amser, cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer y panel ac asesiadau ariannol ar ymgeiswyr. Er mwyn sicrhau diwydrwydd dyladwy a bodloni'r gofynion dan Eithriadau Bloc Cymorth Gwladwriaethol, mae contractwyr allanol wedi'u caffael er mwyn cynnal asesiadau technegol, amgylcheddol ac ariannol annibynnol a darparu gwasanaethau monitro prosiectau. Bydd panel, sy'n cynnwys cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru ac asesydd annibynnol a chanddo gefndir ariannol a diwydiannol, yn asesu ceisiadau ar sail meini prawf asesu.

Bydd prosiectau'n cael eu cymharu yn erbyn ei gilydd (ac yn erbyn gwaddol cenedlaethol o brosiectau tebyg), er mwyn sicrhau y bydd cymorth yn cael ei roi i'r buddsoddiadau cyfalaf mwyaf cost-effeithiol, cadarn a chyflawnadwy. Defnyddir proses gystadleuol i asesu'r holl ymgeiswyr a dyfarnu cyllid. Caiff y meini prawf gwerthuso canlynol eu defnyddio:

- Gwerth am arian o ran y tunelledd o wastraff ychwanegol a ailddefnyddir neu a ailgylchir o ganlyniad uniongyrchol i'r cymorth grant y gofynnir amdano;
- Cadernid ariannol y cynnig;
- Ansawdd y trefniadau ar gyfer marchnata a defnyddio cynhyrchion y cyfleuster;
- Ansawdd a chynllun y cyfleuster;
- Ansawdd y trefniadau ar gyfer cyrchu'r deunyddiau mewnbwn;
- Hyfywedd ariannol y prosiect / yr angen am gyllid grant wedi'i ddangos yn glir;
- Gallu'r ymgeisydd i gyflawni'r prosiect;
- Ymrwymiad amgylcheddol corfforaethol ac effaith amgylcheddol gyffredinol y cyfleuster newydd;
- Ymrwymiad corfforaethol i Iechyd a Diogelwch.

Ymhellach, gofynnir i'r holl ymgeiswyr ddangos y bydd modd lleihau neu osgoi gwastraff (ychwanegol) ac allyriadau cyfwerth â $CO_2$ o ganlyniad i'r ymyriad, a gofynnir iddynt gyflwyno amcangyfrifon yn ymwneud â'r swyddi a gaiff eu creu a'r cynnydd mewn trosiant.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd cyllidebau presennol yn talu costau'r gwaith hwn.

**Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r camau y mae'n eu cymryd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd mewn perthynas â llygredd plastig. Dylai mesurau i godi**

**ymwybyddiaeth y cyhoedd fod yn rhan ganolog o unrhyw strategaeth yn y dyfodol i leihau llygredd plastig.**

**Derbyn**

Mae codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad wedi bod yn hollbwysig i lwyddiant Cymru o ran cyrraedd cyfraddau ailgylchu uchel hyd yn hyn. Yn ogystal, trwy raglenni fel Eco Ysgolion, ceir llawer iawn o weithgarwch ar draws Cymru sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth a thaclo'r problemau sy'n gysylltiedig â llygredd plastig. Wrth symud ymlaen, rydym yn datblygu dewisiadau i gynorthwyo newid mewn ymddygiad, er enghraifft trwy dynnu sylw at bresenoldeb plastig mewn cynhyrchion arbennig, argaeledd dewisiadau amgen a'r effaith a gaiff sbwriela a dulliau amhriodol eraill o gael gwared â sbwriel. Mae hyn yn cynnwys cynorthwyo ymgyrchoedd a rhaglenni sbwriel ehangach a roddir ar waith gan Awdurdodau Lleol a sefydliadau'r Trydydd Sector, fel Cadwch Gymru'n Daclus. Bydd negeseuon yn ymwneud ag atal ac annog newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad yn ganolog i'r gwaith hwn.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd cyllidebau presennol yn talu costau'r gwaith hwn.

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: LG/0284/19

Mike Hedges AC
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mike.Hedges@cynulliad.cymru

25 Gorffennaf 2019

Annwyl Mike

**Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Amaethyddiaeth y DU**

Diolch i chi am sylw ac adroddiadau'r Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (SLCM) mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU.

Rydw i wedi ystyried argymhellion y Pwyllgor yn ofalus ac mae swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau eraill ar becyn i fynd i'r afael â phryderon. Byddwch yn gwerthfawrogi bod hyn yn golygu trafodaethau cymhleth ond rwy'n fodlon â'r cynnydd a wnaed. Rwy'n darparu'r wybodaeth y gallaf ei rhoi ar hyn o bryd yn yr atodiad i'r llythyr hwn. Hoffai fy swyddogion ddarparu briff technegol ar y materion sy'n destun trafodaeth o hyd os byddech yn gweld hynny'n ddefnyddiol. Fel y gwyddoch, mae'r Bil wedi'i ohirio yn Senedd y DU ar hyn o bryd a byddaf yn rhoi ymateb llawn pan fydd y Bil yn mynd ar ei hynt. Yn ogystal, rwy'n bwriadu diweddaru'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil a gosod gerbron y Cynulliad Ddatganiad Esboniadol i ategu'r Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol. Bydd y Datganiad Esboniadol yn rhoi gwybodaeth ychwanegol am y Bil, gan gynnwys cynigion ar sut bydd y pwerau i wneud rheoliadau yn cael eu defnyddio, cyfiawnhau'r gweithdrefnau, a'r dulliau o sicrhau tryloywder a chyfranogiad y Cynulliad Cenedlaethol.

Hoffwn dynnu sylw at rannau penodol o'r pecyn i ddangos fy ymrwymiad i dryloywder, fy mharch at rôl y Cynulliad o ran craffu ar ddeddfwriaeth a fy mod i wedi gwrando ac ystyried barn y Cynulliad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Bil Amaethyddiaeth Cymru**

Rwy'n cadarnhau ei bod yn dal yn fwriad gennyf gymryd y pwerau yn Atodlen 3 Bil y DU. Mae angen y pwerau hyn fel y gallwn ddechrau symud i systemau cymorth newydd pan fyddwn yn barod i wneud hynny.

Mae fy ymrwymiad i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru yn parhau ac mae'r Prif Weinidog wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynlluniau fel rhan o'i ddatganiad ar Raglen Ddeddfwriaethol y Llywodraeth ar 16 Gorffennaf. Bydd Bil Amaethyddiaeth Cymru ar ei fwyaf effeithiol os caiff ei gyflwyno yn y Cynulliad nesaf. Mae'n bwysig deddfu unwaith a deddfu'n dda. Mae hwn yn gyfle i fod yn uchelgeisiol ac yn eang, gan fynd ymhellach na chynllun syml i gefnogi ffermydd ac ystyried materion fel hawliau ffermwyr tenant. Lansiais Ffermio Cynaliadwy a'n Tir ar 9 Gorffennaf sy'n nodi cynigion uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys talu ffermwyr am y camau y maen nhw'n eu cymryd i ymateb i argyfwng yr hinsawdd, lleihau allyriadau a dal carbon. Gan ddefnyddio canlyniadau'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn cyflwyno Papur Gwyn cyn diwedd y Cynulliad hwn i baratoi'r ffordd ar gyfer deddfwriaeth.

Hoffwn roi'r sicrwydd deddfwriaethol a geisir fel sail i'r ymrwymiadau pendant y mae Gweinidogion eisoes wedi'u gwneud ar hyn. Felly, rydw i wedi gofyn i'r swyddogion fwrw ymlaen â chymal "machlud" fel bod y darpariaethau perthnasol ym Mil Amaethyddiaeth y DU yn dod i ben o ddiwedd 31 Rhagfyr 2024.

**Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd (WTO) ar Amaethyddiaeth**

Rwy'n hapus i ddarparu'r sicrwydd pellach y gofynnwyd amdano am y Cytundeb Dwyochrog rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru ar bwerau Sefydliad Masnach y Byd.

Mae cymal Sefydliad Masnach y Byd yn codi ystyriaethau cyfansoddiadol, cyfreithiol a pholisi pwysig a chymhleth. Mae'n cynnwys ardaloedd datganoledig a meysydd a gadwyd yn ôl. Mae polisi sy'n ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol a rheoleiddio masnach ryngwladol wedi'i gadw yn ôl, tra bod polisi sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth ac arsylwi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, wedi'i ddatganoli ac o fewn cymhwysedd deddfwriaethol. Fel y dywedais o'r blaen, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn anghytuno ynglŷn â statws darpariaethau Sefydliad Masnach y Byd. Nid wyf yn barod i ildio safbwynt Llywodraeth Cymru ar y pwynt hwn, yn enwedig o ystyried y goblygiadau cyfansoddiadol ehangach. Fodd bynnag, rydw i wedi cytuno ar ffordd ymlaen gyda'r Ysgrifennydd Gwladol heb ymrwymiad ar y mater.

Yr hyn sy'n bwysig i mi yw sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiadau ar gymhwysedd Llywodraeth Cymru. Mae fy negodiadau, felly, wedi canolbwyntio ar gryfhau'r mecanwaith llywodraethu sy'n sail i'r defnydd o gymal Sefydliad Masnach y Byd i anelu at gyflawni hyn.

Rydw i wedi trafod y mater hwn gyda'r Ysgrifennydd Gwladol sawl gwaith ac roeddwn yn glir iawn fod yr ymrwymiad i ymgynghori a gynigiwyd yn wreiddiol yn annerbyniol ac yn golygu y gellid defnyddio'r darpariaethau i gyfyngu ar gymhwysedd Cymru i lunio polisi amaethyddol. Yn yr un modd, roeddem yn cydnabod y byddai feto unochrog dros y pŵer i wneud rheoliadau Sefydliad Masnach y Byd yn anodd i Lywodraeth y DU ei ildio, gan mai hi sy'n gyfrifol am gynrychioli gwledydd y Deyrnas Unedig yn Sefydliad Masnach y Byd. Fe wnaethom gytuno y dylai ein swyddogion ddatblygu ystod o opsiynau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol i fynd i'r afael â'm pryderon ac y dylid datblygu'r opsiynau hyn o amgylch cynsail y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 a arweiniodd at y Cytundeb Rhynglywodraethol ("IGA”). Yn gyffredinol, fy amcan negodi oedd sicrhau'r rôl gryfaf bosibl i Weinidogion Cymru yn y defnydd o'r pwerau.

Dyma'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni. Drwy'r cytundeb, rydw i wedi sicrhau rôl gref iawn i Gymru yn y broses gychwynnol o lunio'r rheoliadau dan y cymal a'r defnydd parhaus o'r rheoliadau hynny. Mae hyn yn llawer cryfach na'r ymrwymiad wrth gychwyn yr ymgynghoriad ac mae'n cynnwys ymrwymiad penodol i'r Ysgrifennydd Gwladol symud ymlaen drwy gonsensws, wedi'i ategu gan fecanwaith clir a thryloyw. Er nad yw hyn yn amddiffyniad absoliwt, mae'n gosod y bar yn uchel iawn. Rwy'n cydnabod y gallai fod yna sefyllfaoedd lle mae'n anoddach dod o hyd i gonsensws a chynigiodd swyddogion Llywodraeth Cymru y mecanwaith ar gyfer datrys gwahaniaethau sy'n ffurfio rhan o'r Cytundeb. Mae hon yn system gadarn a thryloyw sy'n sicrhau bod barn y Gweinidogion yn cael ei hystyried yn briodol ac, yn bwysicaf oll, mae'n cynnwys hawl i droi at banel annibynnol neu Senedd y DU yn yr achosion mwyaf difrifol. Er enghraifft, os nad yw Llywodraeth Cymru yn cytuno ar reoliadau arfaethedig a bod Llywodraeth y DU yn penderfynu bwrw ymlaen â'r rheoliadau, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ddarparu datganiadau ysgrifenedig i Senedd y DU gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Er nad yw'n feto llwyr, byddai'n rhaid i ddau Dŷ Senedd y DU gytuno'n fwriadol i gymeradwyo'r rheoliadau gan ddiystyru gwrthwynebiadau'r Gweinidogion datganoledig ar sail gwybodaeth lawn. Os yw'n ddefnyddiol, gall swyddogion ystyried a ellid hysbysu'r Cynulliad a chael cyfle i wneud sylwadau ar is-ddeddfwriaeth wrth iddi gael ei pharatoi. Byddaf yn adolygu effeithiolrwydd y broses maes o law ac yn ystyried a oes angen unrhyw addasiadau i'w chryfhau.

**Ardoll Cig Coch**

Ar fy nghais, mae cymal newydd sy'n datrys y mater hirsefydlog o ddychwelyd ardoll cig coch wedi cael ei osod gan Lywodraeth y DU ac mae bellach yn rhan o'r Bil. Mae'r cymal newydd yn rhoi pwerau i Weinidogion, gan weithredu ar y cyd, i sefydlu cynllun sy'n mynnu bod byrddau amaethyddol ym Mhrydain yn ailddosbarthu'r ardoll rhyngddynt. Bydd swyddogion yn awr yn parhau i ddatblygu cynllun ochr yn ochr â'r ddeddfwriaeth sy'n mynd drwy Senedd y DU i sicrhau bod system deg ar waith cyn gynted â phosibl.

**Cysylltiadau Rhyng-Sefydliadol a gweithio**

Rydw i'n ystyried ystod o welliannau ac ymrwymiadau posibl i roi dyletswyddau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru a sicrhau rôl glir i'r Cynulliad wrth graffu ar is-ddeddfwriaeth.

**Diweddariad ar Brexit a'n Tir a'r camau nesaf**

Ar 9 Gorffennaf, lansiais yr ymgynghoriad ar Ffermio Cynaliadwy a'n Tir sy'n gofyn am eich barn ar ein cynigion polisi diwygiedig i gefnogi ffermwyr Cymru. Bydd yr ymgynghoriad yn para tan 30 Hydref 2019. Byddwn hefyd yn dechrau ar raglen cyd-ddylunio yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd hyn yn ein galluogi i archwilio rhai o agweddau ymarferol y cynllun arfaethedig mewn dull cydweithredol, na fyddai'n gwbl bosibl trwy ddefnyddio proses ymgynghori ysgrifenedig yn unig. Byddaf yn darparu'r llinell amser ddangosol ar gyfer datblygu systemau newydd arfaethedig ar ôl i mi gael mwy o eglurder ynghylch cyllid yn y dyfodol a dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Hoffwn ddatgan eto na wneir unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau'r dyfodol nes bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hadolygu, y bydd Cynllun y Taliad Sylfaenol yn parhau heb ei newid hyd at a chan gynnwys 2020, ac na fydd y cynlluniau presennol yn cael eu dileu cyn y bydd unrhyw gynlluniau newydd yn barod.

Cyfarchion

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

**Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (a gyhoeddwyd ar 12 Chwefror 2019): Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU.**

| **Argymhelliad/casgliad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (CCERA)** | **Ymateb Llywodraeth Cymru** |
|---|---|
| **Argymhelliad y pwyllgor** | |
| Rydym yn argymell i'r Cynulliad ei fod yn rhoi cydsyniad i'r darpariaethau ym Mil Amaethyddiaeth y DU, yn amodol ar yr amodau canlynol –<br>• Dylai Llywodraeth Cymru geisio gwelliannau i Fil y DU i wireddu casgliadau 3, 4, 15, 19 a 21; a<br>• Dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiadau i'r Cynulliad, neu eglurhad lle y bo'n briodol, mewn perthynas â'r materion a godwyd yng nghasgliadau 1, 8, 9, 10, 11 a 18. | **Nodwyd**<br><br>Rydw i'n cymryd pryderon y Pwyllgor o ddifrif ac rydw i wedi ymateb i bob casgliad lle'r ydw i mewn sefyllfa i wneud hynny. Mae swyddogion yn parhau i weithio ar becyn i fynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor a byddaf yn darparu rhagor o wybodaeth maes o law. |
| **Casgliadau'r Pwyllgor** | |
| **Yr angen am ddeddfwriaeth a'r ymagwedd a gymerwyd** | |
| **Casgliad 1**<br><br>Rydym o'r farn mai'r ffordd fwyaf priodol o ddeddfu ar bwnc mor arwyddocaol â dyfodol hirdymor amaethyddiaeth yng Nghymru yw Bil Cynulliad. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad y bydd amser ar gael yn y rhaglen ddeddfwriaethol i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru a'i basio cyn diwedd tymor y Cynulliad hwn | **Derbyn**<br><br>Rwy'n cadarnhau fy mod yn parhau'n ymrwymedig i Fil Amaethyddiaeth Cymru.<br><br>Rhoddodd y Prif Weinidog ddiweddariad ar hyn yn ei ddatganiad ar raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth. Bydd Bil Amaethyddiaeth Cymru ar ei fwyaf effeithiol os caiff ei gyflwyno yn y Cynulliad nesaf. Mae'n bwysig deddfu unwaith a deddfu'n dda. Mae hwn yn gyfle i fod yn uchelgeisiol ac yn eang, gan fynd ymhellach na chynlluniau syml i roi cymorth i ffermydd i edrych ar faterion fel hawliau ffermwyr tenant. Lansiais Ffermio Cynaliadwy a'n Tir ar 9 Gorffennaf. Gan ddefnyddio canlyniadau'r ymgynghoriad hwn, byddwn yn cyflwyno Papur Gwyn cyn diwedd y Cynulliad hwn i baratoi'r ffordd ar gyfer deddfwriaeth. |
| **Casgliad 2**<br><br>Rydym yn cydnabod bod angen deddfwriaeth yn y tymor byr, i barhau i roi cymorth ariannol i'r sector amaethyddiaeth yn syth ar ôl Brexit. O ystyried yr amser sydd ar gael, mae Bil y DU yn gyfrwng priodol at y diben hwn. Ond, mae'r darpariaethau ym Mil y Deyrnas Unedig yn mynd ymhell y tu hwnt i sicrhau parhad uniongyrchol cymorth ariannol. Maent yn galluogi Gweinidogion Cymru i sefydlu ymagwedd hollol newydd at gymorth i amaethyddiaeth. | **Nodwyd**<br><br>Nodaf bryderon y Pwyllgor. Mae Brexit wedi creu ansicrwydd digyffelyb ac mae'n hanfodol sicrhau bod deddfwriaeth yn ei lle mewn da bryd fel y gallwn ddechrau symud i systemau cymorth newydd wrth i'r DU adael y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Yn ogystal â chymryd pwerau parhad, rydw i felly wedi penderfynu cymryd pwerau i ganiatáu diwygio cyfraith yr UE a gadwyd ac i'n galluogi i bontio i gynlluniau newydd, yn amodol ar ymgynghori, fel na fydd ffermwyr Cymru dan anfantais. |

| | |
|---|---|
| | Gwneuthum ddatganiad ysgrifenedig ar 21 Mawrth, cyhoeddwyd fy Natganiad yn y Gwanwyn ar 7 Mehefin, a lansiwyd yr ymgynghoriad ar Ffermio Cynaliadwy a'n Tir ar 9 Gorffennaf i geisio barn ar ein cynigion polisi diwygiedig i gefnogi ffermwyr Cymru. Bydd yr ymgynghoriad yn para tan 30 Hydref 2019. Byddwn hefyd yn dechrau ar raglen cyd-ddylunio yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd hyn yn ein galluogi i archwilio rhai o agweddau ymarferol y cynllun arfaethedig mewn dull cydweithredol, na fyddai'n gwbl bosibl trwy ddefnyddio proses ymgynghori ysgrifenedig yn unig. Bydd yr ymatebion i'r ddogfen ymgynghori a'r rhaglen gyd-gynllunio yn cael eu hystyried yn ofalus a byddwn wedyn yn pennu ac yn nodi'r camau nesaf ar ôl i ni allu ystyried yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn llawn ac yng ngoleuni datblygiadau Brexit dros ystod y misoedd nesaf. Rydw i wedi dweud yn glir:<br><br>• Na wneir unrhyw benderfyniadau ar gynlluniau'r dyfodol hyd nes y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hadolygu a bod yr holl ystyriaethau perthnasol eraill wedi'u hystyried;<br><br>• Na wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun taliad sylfaenol presennol hyd nes y bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u hystyried. I adlewyrchu hyn, rydw i eisoes wedi cyhoeddi y bydd Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) yn parhau'n ddigyfnewid hyd at ac yn cynnwys 2020, ac mae rhai deiliaid contract Glastir wedi cael cynnig i adnewyddu contractau hyd at 2021. Felly, ni fydd y broses pontio i unrhyw gynlluniau newydd a gyflwynaf yn dechrau tan o leiaf 2021.<br><br>• Ni fydd cynlluniau sy'n bodoli eisoes yn cael eu dileu cyn bod unrhyw gynlluniau newydd yn barod.<br><br>Rydw i wedi rhoi cyfarwyddyd i swyddogion i symud cymal "machlud" yn ei flaen fel bod y darpariaethau perthnasol yn y Bil yn dod i ben o ddiwedd 31 Rhagfyr 2024. Gobeithio y bydd hyn yn rhoi sicrwydd pellach i'r Pwyllgor mai pwerau dros dro fydd y rhai a fydd yn mynd drwy Fil y DU. |
| **Casgliad 3**<br><br>Rydym o'r farn bod darpariaethau ar gyfer Cymru yn y Bil yn anghytbwys. Maent yn rhoi pwerau sylweddol i Weinidogion Cymru ond nid ydynt yn rhoi unrhyw ddyletswydd arnynt. Effaith y darpariaethau fydd cyfyngu'n ddifrifol ar allu'r Cynulliad i graffu ar gymorth Llywodraeth Cymru | **Derbyn yn rhannol**<br><br>Nodaf bryderon y Pwyllgor ynglŷn â hyn. Rydw i wedi ymrwymo i'r egwyddor o dryloywder a rôl ddilys y Cynulliad Cenedlaethol wrth graffu ar bolisi. Mae swyddogion yn ystyried a ellir rhoi sicrwydd pellach i wella'r broses graffu. Gallai hyn fod drwy ddiwygio'r Bil neu drwy gyhoeddi |

| | |
|---|---|
| ar gyfer amaethyddiaeth, ar adeg pan fydd craffu effeithiol yn hanfodol i lwyddiant y polisïau newydd. Nid yw hon yn ymagwedd dderbyniol, a dylai fod yn fater o bryder difrifol i'r Cynulliad. Rydym o'r farn y dylid diwygio Atodlen 3 i gynnwys mesurau diogelu ychwanegol er mwyn sicrhau bod y pwerau gweithredol yn cael eu harfer yn gymesur ac yn briodol. Gallai hyn gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori cyn cyflwyno rheoliadau. | ymrwymiad clir i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad neu i ymgynghori arno ar reoliadau neu gynlluniau drafft. Gall fy swyddogion ddarparu sesiwn friffio breifat ar hyn os byddai hynny'n ddefnyddiol i chi. |
| **Casgliad 4**<br><br>Addawodd Ysgrifennydd y Cabinet yn Brexit a'n Tir bod y darpariaethau ym Mil y Deyrnas Unedig yn gyfystyr â threfniadau trosiannol a fydd yn "gyfyngedig o ran amser". Nid oes cyfyngiadau o'r fath wedi eu cynnwys ym Mil y Deyrnas Unedig, fel y'i drafftiwyd. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru geisio gwelliant i Fil y Deyrnas Unedig er mwyn cyflwyno "cymal machlud" mewn perthynas â darpariaethau Cymru. | **Derbyn**<br><br>Rwy'n cadarnhau fy mod yn parhau'n ymrwymedig i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru a rhoddodd y Prif Weinidog ddiweddariad ar hyn fel rhan o'i ddatganiad blynyddol ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol ar 16 Gorffennaf. Rydw i wedi gwrando'n astud ar bryderon Pwyllgorau'r Cynulliad ynglŷn â diffyg cymal "machlud". Rydw i wedi rhoi cyfarwyddyd i swyddogion symud cymal "machlud" yn ei flaen fel bod y darpariaethau perthnasol yn y Bil yn dod i ben o ddiwedd 31 Rhagfyr 2024. Mae swyddogion yn gweithio gyda'r Cwnsler Seneddol a Llywodraeth y DU i baratoi darpariaeth addas sy'n rhoi'r sicrwydd deddfwriaethol a geisir gan y pwyllgorau yn ogystal â'r ymrwymiad pendant a roddwyd eisoes y bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru.<br><br>Fy mwriad yw bod y ddarpariaeth hon yn cael ei chyflwyno fel gwelliant gan y Llywodraeth. |
| **Casgliad 5**<br><br>Yn sgil digwyddiadau diweddar yn San Steffan, dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr angen am fesurau wrth gefn priodol i sicrhau y gellir rhoi cymorth ariannol i'r sector amaethyddol yn syth ar ôl Brexit. | **Derbyn**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith helaeth i sicrhau bod deddfwriaeth yn ei lle. Mae llawer o'r blociau adeiladu deddfwriaethol yn eu lle ac mae deddfwriaeth yn ei lle i ganiatáu i daliadau i ffermwyr barhau os yw'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb yn ei le. |
| **Gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin** | |
| **Casgliad 6**<br><br>Mae hwn yn gyfnod o ansicrwydd sylweddol i'r sector amaeth yng Nghymru. Rydym yn cydnabod pam mae'r sector wedi ymateb yn bryderus i'r cynigion i ddirwyn taliadau uniongyrchol i ben. O ystyried yr amser sydd ar gael, rydym yn cefnogi cynnwys darpariaethau ym Mil y Deyrnas Unedig i barhau â thaliadau uniongyrchol yn syth ar ôl Brexit. Rydym o'r farn y bydd hyn yn rhoi sicrwydd i'r sector. | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Rydw i wedi cyhoeddi y bydd Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) yn parhau'n ddigyfnewid hyd at ac yn cynnwys 2020. Lansiais yr ymgynghoriad ar Ffermio Cynaliadwy a'n Tir ar 9 Gorffennaf i geisio barn ar ein cynigion polisi diwygiedig i gefnogi ffermwyr Cymru. Bydd yr ymgynghoriad yn para tan 30 Hydref 2019. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn fy ymateb i gasgliad 2. |
| **Casgliad 7** | **Gwrthod** |

| | |
|---|---|
| Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud na fydd unrhyw benderfyniad polisi yn cael ei gymryd nes bydd canlyniadau ymgynghoriad *Brexit a'n tir* yn hysbys. Mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd wedi dweud ei bod hi'n bwriadu dirwyn taliadau uniongyrchol i ben. Nid yw'r ddau safbwynt hyn yn gydnaws. | Nodaf bryderon y Pwyllgor ond nid wyf yn cytuno bod fy safbwynt datganedig yn anghydnaws. Pan fydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE), bydd y polisi amaethyddol cyffredin (PAC) – gan gynnwys Cynllun y Taliad Sylfaenol – yn dod i ben yng Nghymru. Mae angen i ni benderfynu sut i gefnogi ffermwyr ar ôl Brexit. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn fy ymateb i gasgliad 2. |
| **Casgliad 8**<br><br>Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal asesiad o effaith dirwyn taliadau uniongyrchol i ben. Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad i beidio â dechrau dirwyn taliadau uniongyrchol i ben nes daw'r amser y bydd wedi cwblhau a chyhoeddi asesiad effaith manwl ar draws y sector. | **Derbyn**<br><br>Yn fy natganiad yn y gwanwyn ar 7 Mehefin, ymrwymais i gynnal y modelu a'r asesiadau effaith angenrheidiol cyn cwblhau'r cynigion. Cyhoeddais y pecyn tystiolaeth, 'Amaethyddiaeth yng Nghymru' fel y cam cyntaf yn y dasg hon. Mae'n nodi gwybodaeth sy'n berthnasol i Gynllun y Taliad Sylfaenol i ganiatáu i effaith polisi newydd gael ei hasesu o'i chymharu â'r sefyllfa bresennol. Rwy'n bwriadu llunio cyfres o fodelau fferm cynrychioliadol i amcangyfrif yr ystod o effeithiau ariannol ac economaidd a gaiff ein cynigion ar ffermydd o wahanol fathau, meintiau a lleoliadau yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn cyfrannu at ystod ehangach o asesiadau effaith a fydd yn cael eu cynnal maes o law. |
| **Casgliad 9**<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gynnwys pwerau gweithredol eraill o dan Ran 2 o Atodlen 3. Er enghraifft, y darpariaethau sy'n ymwneud â thaliadau wedi eu datgysylltu. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth i'r Cynulliad ynghylch sut mae'n bwriadu defnyddio'r pwerau hyn, pe bai'r Cynulliad yn rhoi caniatâd. Dylai Llywodraeth Cymru egluro sut mae'n bwriadu defnyddio'r pwerau hyn. | **Derbyn**<br><br>Rydw i wedi adolygu'r holl bwerau a gweithdrefnau. Mae Llywodraeth Cymru a Defra yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â phryderon ar draws y Bil. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a byddaf yn rhoi'r wybodaeth y gofynnir amdani i'r Cynulliad cyn gynted ag y byddaf mewn sefyllfa i wneud hynny. Gall fy swyddogion ddarparu sesiwn friffio breifat ar hyn os byddai hynny'n ddefnyddiol i chi. |
| **Pontio i system newydd o gymorth** | |
| **Casgliad 10**<br><br>Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi eglurder i'r Cynulliad ynghylch y man cychwyn na'r amserlen ar gyfer pontio o'r trefniadau presennol i gynlluniau yn y dyfodol. Yn *Brexit a'n tir*, dywedodd Llywodraeth Cymru mai ei huchelgais oedd i'r cyfnod pontio ddechrau yn 2020 a chael ei gwblhau erbyn 2025. Yn fwy diweddar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai taliadau uniongyrchol yn cael eu gwneud, heb eu newid, ar gyfer blwyddyn dalu 2020 y PAC.<br><br>Rydym o'r farn bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru egluro ei bwriadau mewn perthynas â phryd bydd y cyfnod pontio yn dechrau a beth fydd hynny'n ei olygu i'r sector yn ymarferol. | **Gwrthod**<br><br>Mae'r sefyllfa ddiweddaraf o ran pontio wedi'i nodi ym Mhennod 8 *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.* Roedd *Brexit a'n Tir* yn ymgynghori ar amserlen uchelgeisiol i symud o'r cynlluniau presennol i gynlluniau newydd erbyn 2025. Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddais y byddai Cynllun y Taliad Sylfaenol yn aros yn ei le ar gyfer 2020. Ers hynny, mae maint yr ansicrwydd ynghylch Brexit wedi cynyddu. Mae hyn yn llesteirio ein gallu i gynllunio cymorth i ffermydd yn y dyfodol yng Nghymru.<br><br>Rwy'n parhau i gynnig cyfnod pontio aml-flwyddyn. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd parhaus ynghylch Brexit, ni allaf ymgynghori ar |

| | |
|---|---|
| | gyfnod penodol o amser. Pan fydd mwy yn hysbys, byddaf yn gwneud datganiad pellach. Hyd nes y bydd yr ansicrwydd yn cilio, byddaf yn canolbwyntio'r drafodaeth ar y ffordd orau o gynllunio'r broses bontio.<br><br>Rydw i wedi rhoi gwybod yn llawn i'r Cynulliad am fy nghynlluniau. Ers cyhoeddi *Brexit a'n Tir*, rydw i wedi cynnal rhaglen ymgysylltu helaeth. Rydw i wedi gwrando ac ymateb i adborth i ddatblygu polisi ac wedi diweddaru'r Cynulliad wrth i benderfyniadau gael eu gwneud. |
| **Casgliad 11**<br><br>Pa un ai a yw'n dymuno dechrau pontio yn 2020, 2021 neu, yn wir, yn ddiweddarach, mae Llywodraeth Cymru yn wynebu heriau sylweddol, o gofio y bydd angen ymgymryd â gwaith modelu manwl, asesiadau effaith a sefydlu cynlluniau peilot yn gyntaf i lywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r cynlluniau newydd.<br><br>Rydym o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru roi ymrwymiad na fydd y broses o drosglwyddo i gynlluniau newydd yn dechrau nes i'r gwaith hwn gael ei gwblhau. | **Derbyn**<br><br>Rhoddir rhagor o wybodaeth yn fy ymateb i gasgliad 2.<br><br>Rydw i wedi ymrwymo o hyd i gynnal y modelu a'r asesiadau effaith angenrheidiol cyn gwneud penderfyniadau terfynol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys nifer o gamau, ac mae rhai ohonynt eisoes wedi'u cwblhau ac mae angen datblygu rhai ohonynt. Nodir y gwaith hwn yn Atodiad A (Dull Dadansoddol) i *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.*<br><br>Byddaf yn parhau i ystyried rôl prosiectau peilot. Mae'n bwysig nodi nad ydym yn dechrau o dudalen wag, gan fod gennym dros 20 mlynedd o ddarpariaeth amaeth-amgylchedd i ddysgu ohono. O ystyried y sylfaen hon o dystiolaeth sy'n bodoli eisoes, efallai mai'r peth mwyaf priodol fyddai targedu cynlluniau peilot ar yr agweddau ymarferol o gyflwyno cynllun. Mae'r rhaglen cyd-ddylunio yn gam cyntaf pwysig. |
| **System newydd o gymorth ariannol** | |
| **Casgliad 12**<br><br>Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud na fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei gymryd ar fanylion y system gymorth ariannol newydd nes bydd canlyniad ymgynghoriad *Brexit a'n tir* yn hysbys. Gan hynny, nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i egluro i'r Cynulliad yn fanwl y dibenion y bydd y pwerau hyn yn cael eu defnyddio ar eu cyfer. | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Rwy'n nodi pryderon y Pwyllgor, ond mae Brexit wedi creu ansicrwydd digyffelyb. Rydw i am sicrhau bod deddfwriaeth yn ei lle mewn da bryd fel bod y DU yn gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin ac yn gallu dechrau symud i systemau cymorth newydd unwaith y bydd mwy o ymgynghori, modelu a phob asesiad effaith wedi'u cynnal a phenderfyniadau wedi'u gwneud.<br><br>Byddaf yn darparu'r wybodaeth hon maes o law. |
| **Casgliad 13**<br><br>Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi nodi, os bydd Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i dreialu a modelu, yn penderfynu bod y cynlluniau a gynigir | Mae hyn yn gywir ac yn dod o dan fy ymateb i gasgliad 12. |

| | |
|---|---|
| yn *Brexit a'n tir* yn amhriodol, bydd ymagweddau eraill yn cael eu hystyried a'u datblygu. Mae hyn yn golygu, mewn gwirionedd, y gellir defnyddio'r darpariaethau at ddibenion sy'n anhysbys ar hyn o bryd. | |
| **Casgliad 14**<br><br>Bydd Bil y Deyrnas Unedig yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyflwyno system newydd o gymorth ariannol ar gyfer amaethyddiaeth, ar ôl 40 mlynedd o'r PAC. Nid yw'r darpariaethau, fel y'u drafftiwyd, yn cynnwys unrhyw rôl oruchwylio na monitro i'r Cynulliad wrth sefydlu neu weithredu'r system gymorth ariannol newydd. Nid ydym o'r farn bod hyn yn briodol mewn meysydd allweddol o gyfrifoldeb datganoledig. Dyma'r tro cyntaf, ers datganoli, i Gymru gael cyfle i lunio ei pholisi ei hun yn y maes hwn, ac mae'n iawn fod y Cynulliad yn chwarae rôl lawn yn hyn o beth. | **Derbyn yn rhannol**<br><br>Ymdrinnir â hyn yn fy ymateb i gasgliad 3. Gall fy swyddogion ddarparu sesiwn friffio breifat ar y materion sy'n destun trafodaeth o hyd os byddech yn gweld hynny'n ddefnyddiol. |
| **Casgliad 15**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru geisio diwygiadau i Fil y Deyrnas Unedig i'w gwneud yn ofynnol: mai dim ond drwy gynlluniau a sefydlir gan Reoliadau y gellir rhoi cymorth ariannol dan Ran 1; y dylai'r Rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol; a bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru adrodd i'r Cynulliad yn flynyddol ar effeithiolrwydd unrhyw gynllun a sefydlwyd. | **Derbyn yn rhannol**<br><br>Rydw i wedi ystyried hyn yn ofalus ond rwy'n parhau i gredu bod Bil fframwaith yn gyfrwng deddfwriaethol mwy addas i fod yn sail i bolisi amaethyddol yn y dyfodol. Rydym am symud oddi wrth fiwrocratiaeth a chymhlethdod rheoliadau'r UE sydd wedi ein cyfyngu yn y gorffennol. Rwy'n bwriadu parhau i gyd-ddylunio rhaglen rheoli tir yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein galluogi i archwilio rhai o'r agweddau ymarferol ar ganlyniadau arfaethedig y cynllun mewn dull cydweithredol na fyddai'n gwbl bosibl o ddefnyddio proses ymgynghori ysgrifenedig yn unig.<br><br>Mae swyddogion yn ystyried a ellir rhoi sicrwydd pellach i wella'r broses graffu. Gallai hyn fod drwy ddiwygio'r Bil neu drwy gyhoeddi ymrwymiad clir i gyflwyno adroddiad neu i ymgynghori â'r Cynulliad. Gall fy swyddogion ddarparu sesiwn friffio breifat ar hyn os byddai hynny'n ddefnyddiol i chi. |
| **Casgliad 16**<br><br>Ni fu unrhyw asesiad o effaith ariannol y penderfyniad i ehangu mynediad at gynlluniau yn y dyfodol. Gan hynny, nid yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i esbonio i'r Cynulliad pa effaith y bydd y penderfyniad hwn yn ei chael ar ffermwyr. Fel y cyfeirir ato mewn casgliadau blaenorol, credwn na ddylai Llywodraeth Cymru ddechrau trosglwyddo i'r cynlluniau newydd nes iddi gynnal asesiad o effaith ehangu mynediad at gymorth ariannol a chyhoeddi'r canlyniadau. | **Derbyn**<br><br>Rydw i wedi nodi'r cynllun ar gyfer asesiadau effaith yn y dyfodol yn fy ymateb i gasgliad 8. |
| **Cyllid ar gyfer polisi amaethyddol yn y dyfodol** | |
| **Casgliad 17** | **Derbyn** |

| | |
|---|---|
| Nid yw cenhedloedd cyfansoddol y Deyrnas Unedig wedi dod i gytundeb eto ar drefniadau cyllido amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig ar gyfer 2020-2022. At hynny, nid oes eglurder o ran trefniadau cyllido mwy hirdymor. Rhaid sefydlu mecanwaith rhynglywodraethol newydd i sicrhau cytundeb cynaliadwy, hirdymor ar gyfer cyllido amaethyddiaeth a rheoli tir yn y Deyrnas Unedig. | Mae Gweinidogion wedi bod yn glir na ddylem gael ceiniog yn llai pan fyddwn yn gadael yr UE ac y dylem gael hyblygrwydd llawn ynghylch sut y caiff arian ei wario. Mae hyn yn cyd-fynd ag ymrwymiad y maniffesto yn 2017 i gynnal ariannu ffermydd ar y lefelau presennol. Rydym yn parhau i geisio ymrwymiad pendant gan Lywodraeth y DU i ddatblygu'r holl drefniadau ariannu yn y dyfodol ar ôl i ni adael yr UE mewn partneriaeth, nid yn unig y trefniadau ar gyfer cyllid amaethyddiaeth yn y dyfodol. |
| **Casgliad 18**<br><br>Nid yw Llywodraeth Cymru wedi darparu unrhyw wybodaeth ariannol i'r Cynulliad mewn perthynas â chostau cyflwyno cynlluniau newydd, ac eithrio dweud na fydd "goblygiadau ariannol uniongyrchol". Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud bod pwerau cyfatebol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn debygol o arwain at "wariant sylweddol". Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi, cyn sefydlu cynlluniau newydd, asesiad effaith rheoleiddiol llawn o'r cynigion, a ddylai gynnwys asesiad manwl o gostau ac asesiad o ran nodau llesiant, ond ni ddylid cyfyngu'r asesiad i hynny'n unig. | **Derbyn**<br><br>Rydw i wedi nodi'r cynllun ar gyfer asesiadau effaith yn y dyfodol yn fy ymateb i gasgliad 8. |
| **Cytundeb Amaethyddiaeth Sefydliad Masnach y Byd** | |
| **Casgliad 19**<br><br>Rydym yn rhannu pryderon rhanddeiliaid am oblygiadau posibl y darpariaethau yng nghymal 26 mewn perthynas â Sefydliad Masnach y Byd, a'u potensial i gyfyngu ar Lywodraeth Cymru mewn meysydd datganoledig. Rydym o'r farn y dylid mynd i'r afael â hyn naill ai drwy welliant i Fil y Deyrnas Unedig neu, ar y lleiaf, gytundeb ffurfiol wedi ei gyhoeddi rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru. | **Derbyn**<br><br>Mae'r casgliad hwn wedi'i oddiweddyd gan gasgliad 2 adroddiad y Pwyllgor ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol a darperir ymateb ar wahân. |
| **Casgliad 20**<br><br>Mae angen dybryd am fecanwaith rhynglywodraethol ffurfiol ar lefel Weinidogol i ddatrys anghydfodau a allai godi mewn perthynas â gweithredu polisi amaethyddiaeth yn y Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Dylai hwn fod yn fodel o lywodraethu ar y cyd yn seiliedig ar gydraddoldeb parch. | **Derbyn mewn egwyddor**<br><br>Gwneuthum ddatganiad ysgrifenedig ar 21 Mawrth a oedd yn cynnwys manylion y Cytundeb Dwyochrog gyda Llywodraeth y DU ar ddarpariaethau Sefydliad Masnach y Byd yn y Bil. Rydw i o'r farn bod hon yn fecanwaith cadarn a thryloyw i gynnwys Gweinidogion Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn ogystal â bod yn fecanwaith ar gyfer datrys anghydfodau. Mae'r cytundeb dwyochrog yn nodi y bydd rôl i gyngor annibynnol fel arfer pe bai'r llywodraethau'n anghytuno ar ddosbarthiad priodol cynlluniau neu faterion perthnasol eraill. Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried y cyngor hwn cyn gwneud unrhyw benderfyniad a bydd yn rhannu'r cyngor, y penderfyniad a'r rheswm dros wneud penderfyniad gyda'r gweinyddiaethau |

| | |
|---|---|
| | datganoledig. Y bwriad clir yw ceisio cytundeb. Fodd bynnag, lle nad yw hyn yn ymarferol, mae yna fecanweithiau cryf i Weinidogion Cymru fynegi eu barn.<br><br>Bydd y trefniadau hyn yn cael eu codio mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, a bydd Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Materion Gwledig yn rhoi hyn ar glawr mewn datganiad ar lawr Tŷ'r Cyffredin. |
| **Darpariaethau eraill y ceisir cydsyniad ar eu cyfer** | |
| **Casgliad 21**<br><br>Rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r darpariaethau a amlinellir yn yr adran hon o'r adroddiad. Fodd bynnag, rydym o'r farn nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu gwybodaeth i egluro'n fanwl y dibenion y bydd yn defnyddio'r darpariaethau ar eu cyfer. Mae'r rhain yn bwerau gweithredol helaeth, a dylai Llywodraeth Cymru egluro eu pwrpas a'u heffaith arfaethedig. Rydym yn ailadrodd ein sylwadau ynghylch yr angen am gynnwys mesurau diogelu yn Atodlen 3 er mwyn sicrhau bod y pwerau hyn yn cael eu harfer yn briodol ac yn gymesur. | **Nodwyd**<br><br>Rwy'n cytuno'n llwyr y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am ddiben ac effaith arfaethedig y pwerau. Rwy'n bwriadu rhoi enghreifftiau o sut gallai'r darpariaethau gael eu defnyddio ynghyd â gwybodaeth arall y gofynnir amdani. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a byddaf yn rhoi'r wybodaeth y gofynnir amdani i'r Cynulliad cyn gynted ag y byddaf mewn sefyllfa i wneud hynny. |
| **Casgliad 22**<br><br>Rydym yn cytuno â'n rhanddeiliaid ynghylch yr angen am "gydweithrediad a chytundeb" rhwng cenhedloedd cyfansoddol y Deyrnas Unedig wrth arfer y pwerau hyn. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn perthynas â safonau iechyd anifeiliaid ac ymyrraeth yn y farchnad. Rhaid ymdrin â hyn drwy fecanwaith rhynglywodraethol, ffurfiol, fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. | **Derbyn**<br><br>Rydw i'n croesawu'r adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol. Mae hyn yn cael ei oruchwylio gan fwrdd prosiect o uwch swyddogion o Lywodraethau Cymru a'r Alban, Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, a Swyddfa'r Cabinet. Mae gan yr adolygiad bum ffrwd waith - egwyddorion; llywodraethu fframweithiau cyffredin; datrys anghydfodau; ymgysylltu rhyngwladol; a pheirianwaith.<br><br>Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran datblygu'r fframweithiau cyffredin a fydd yn gwreiddio'r mathau newydd o gydweithredu rhynglywodraethol. Rwy'n bwriadu darparu rhagor o fanylion yn fuan. |

**Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2019) ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar y Bil Amaethyddiaeth**

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad 1**<br><br>Rydym yn croesawu'r ffaith bod darpariaethau'r ardoll cig coch (cymal 29 newydd) wedi'u cynnwys yn y Bil. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi ymrwymiad na fydd yn defnyddio'r cynnydd yn y derbyniadau sy'n deillio o ail-wladoli'r ardoll i ddisodli'r cyllid a ddarperir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru i Hybu Cig Cymru. | **Nodwyd**<br><br>Nid wyf yn bwriadu defnyddio'r gwaith o ddiwygio'r system Ardoll Cig Coch i newid y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ariannu gweithrediadau Hybu Cig Cymru. Ar hyn o bryd, defnyddir derbynebau ardollau ar gyfer yr amcanion a nodir ym Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 ac nid yw'r diwygiadau |

| | |
|---|---|
| | arfaethedig i'r system ardollau yn newid yr amcanion hyn. Defnyddir y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Hybu Cig Cymru i ddarparu gwasanaethau sy'n mynd y tu hwnt i'r cyfrifoldebau ardoll craidd fel y nodir ym Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010. Ar hyn o bryd fy mwriad yw i'r arian hwn barhau. |
| **Argymhelliad 2**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru geisio cytundeb Llywodraeth y DU i ddiwygio'r Bil i fynd i'r afael â phryderon y Pwyllgor mewn perthynas â chymal 28. | **Gwrthod**<br><br>Gwneuthum Ddatganiad Ysgrifenedig ar 21 Mawrth a oedd yn cynnwys manylion y Cytundeb Dwyochrog gyda Llywodraeth y DU. Rydw i o'r farn bod hon yn fecanwaith cadarn a thryloyw i gynnwys Gweinidogion Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn ogystal â bod yn fecanwaith ar gyfer datrys anghydfodau. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Materion Gwledig yn cofnodi hyn mewn datganiad ar lawr Tŷ'r Cyffredin. Nid wyf yn cytuno bod angen diwygio'r Bil.<br><br>Nodaf bryderon pellach y Pwyllgor a wnaed yn yr adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol. Rwy'n parhau i gredu, fodd bynnag, bod hyn yn ganlyniad da na ddylai gyfyngu ar gymhwysedd Cymru i lunio polisïau a deddfwriaeth amaethyddol. |

**Lesley Griffiths AC / AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

12 Awst 2019

Annwyl Elin,

**BIL ANIFEILIAID GWYLLT A SYRCASAU (CYMRU)**

Gwnes gyflwyno Bil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) i'r Cynulliad ar 8 Gorffennaf 2019.

Ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru atoch ar 7 Mehefin, gan amgáu i chi ei ystyried Fil Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru). Gofynnwyd i chi benderfynu a oedd o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol. Nododd y Prif Weinidog fod darpariaeth o fewn y Bil sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i dderbyn cydsyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r darn sydd o dan sylw o fewn Adran 10 y Bil - Tir y Goron: pwerau mynediad. Mae Deddf 2006 yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu na all darpariaeth i Ddeddf gan y Cynulliad roi na gosod swyddogaeth newydd ar awdurdod neilltuedig heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae Adran 10 yn cynnwys darpariaeth sy'n pennu y gall y pŵer mynediad a roddir gan yr Atodlen i'r Bil gael ei arfer mewn perthynas â thir y Goron yn unig, a hynny gyda chydsyniad awdurdod perthnasol y Goron (sy'n cynnwys Comisiynwyr Ystad y Goron, adran arall o fewn y llywodraeth neu Drysorlys Ei Mawrhydi). Mae'r awdurdodau hyn yn awdurdodau neilltuedig o dan Ddeddf 2006.

Nid oedd cydsyniad wedi'i roi pan dderbynioch chi lythyr y Prif Weinidog, a gwnaethoch chi gydnabod hyn yn eich ymateb (cyf: PO676/EJ/EW), gan nodi nad oedd holl ddarpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gallaf gadarnhau yn awr fod cydsyniad wedi'i roi ac amgaeir llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi cydsyniad.

Bydd copi o'r llythyr hwn a'r llythyr sydd wedi'i amgáu hefyd yn cael ei anfon at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig a hefyd at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol.

Yn gywir



**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

UK Government
Llywodraeth y DU

**Rt Hon Alun Cairns MP**
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

**T:** 020 7270 0575
**E:** Correspondence@ukgovwales.gov.uk

Lesley Griffiths AM
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs
Welsh Government
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

28 July 2019

Dear Lesley,

Thank you for your letter of the 7th May in respect of the Wild Animals and Circuses (Wales) Bill in which you sought consent from the UK Government for a provision in the Bill in relation to power of entry in Crown land but only with consent of the relevant Crown authority.

My officials have confirmed with relevant UK Government departments that we are content for consent to be given for this provision. As you acknowledge it is highly unlikely that an inspector would need to use this power. Furthermore, with a similar Westminster Bill having recently gained Royal Assent the goal of outlawing wild animals being used in circuses throughout Great Britain will be achieved once your Bill is on the statute book.

Therefore, I am content for consent to be given for the provision relating to Crown Land in the Wild Animals and Circuses (Wales) Bill.

Yours sincerely,

**Rt Hon Alun Cairns MP**

Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Gwydyr House | Tŷ Gwydyr
London | Llundain
SW1A 2NP
www.gov.uk/wales

1 Caspian Point | 1 Pwynt Caspian
Cardiff | Caerdydd
CF10 4DQ
www.gov.uk/cymru

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: MA - P/LG/2923/19

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

21 Awst 2019

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf ynglŷn ag egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl ymadael â'r UE.

1. **Trefniadau Pontio**

Yn fy llythyr dyddiedig 14 Mawrth nodais mai ein blaenoriaeth gyntaf oll oedd sicrhau na fydd unrhyw fylchau mewn perthynas â deddfwriaeth amgylcheddol yr UE sydd ar waith ar hyn o bryd. Mae cryn waith wedi cael ei wneud i sicrhau bod y mesurau diogelu cyfredol yn parhau, ac os ydyn ni'n gadael yr UE heb gytundeb bydd hyn yn golygu y bydd y safonau amgylcheddol presennol yn parhau i fod yn berthnasol o'r diwrnod ymadael

Yn ogystal, rwyf wedi datgan nad yw Cymru yn yr un sefyllfa â mannau eraill y DU, oherwydd ein deddfwriaeth bresennol, sy'n gosod datblygu cynaliadwy a'r amgylchedd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau yng Nghymru. Mae ein pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r egwyddorion yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) yn golygu ein bod ni wedi rhoi ar waith rai o'r egwyddorion sydd yng Nghytuniadau'r UE. Bydd y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn parhau i fod yn berthnasol ar y diwrnod ymadael.

Yn ein hymgynghoriad ar *Egwyddorion a Threfniadau Llywodraethu Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE*, ymrwymais ymhellach i barhau i ddefnyddio pedair egwyddor yr Undeb Ewropeaidd os ydym yn gadael heb gytundeb.

Rwy'n deall pryderon rhanddeiliaid ynghylch goblygiadau ymadael heb gytundeb ar gyfer llywodraethu. Fodd bynnag, fel yr wyf wedi dweud o'r blaen, nid yw hyn yn golygu na fydd trefniadau llywodraethu ar waith yng Nghymru, gan y bydd ein mecanweithiau domestig yn parhau i fod yn weithredol, a bydd Cynlluniad Cenedlaethol Cymru yn parhau i fod y corff sy'n gyfrifol am ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. O ganlyniad, nid yw ein dinasyddion heb sianeli ar gyfer lleisio pryderon. Fodd bynnag, yr wyf am ystyried pa fecanweithiau priodol a chymesur a allai fod ar gael os oes rhaid inni ymdrin â chanlyniadau ymadael heb gytundeb a'r goblygiadau dros y tymor byr a'r hirdymor.

Rydym wedi asesu'r trefniadau pontio arfaethedig yn Lloegr, ac wedi ystyried a ydynt yn darparu model sy'n addas ar gyfer Cymru. Yn fy marn i, maent yn ddull costus a fydd, mewn gwirionedd, yn galluogi llai o oruchwyliaeth na'r systemau rwyf wedi'u hamlinellu uchod a fydd yn parhau i fod yn berthnasol yng Nghymru. Fel rwy'n deall y trefniadau arfaethedig ar gyfer Lloegr, yn gymaint ag y byddant yn berthnasol i Gymru, byddant yn caniatáu derbyn cwynion, penderfynu a ydynt yn ddilys a'u cofnodi. Bydd goruchwyliaeth seneddol yn gyfyngedig i adroddiad blynyddol ar nifer a themâu'r cwynion a dderbynnir, ac ni fydd cwynion yn cael eu harchwilio. Bydd cwynion yn cael eu trosglwyddo i Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd arfaethedig, pan fydd wedi'i sefydlu, felly nid yw disgrifio'r dull hwn fel corff cysgodol yn adlewyrchu'r canlyniadau a fydd yn gallu eu cyflawni.

Ym mis Gorffennaf, sefydlais grŵp tasg rhanddeiliaid. Mae'r grŵp hwn wedi cael ei herio i ystyried yn ofalus beth yw llywodraethu da, er mwyn sicrhau ein bod yn adeiladu system sy'n cyd-fynd â'r dull deddfwriaethol ehangach ac a fydd yn gynaliadwy yn y dyfodol. Bydd y grŵp yn trafod trefniadau pontio hefyd. Rwy'n disgwyl y bydd unrhyw gynigion sy'n dod i law ddangos dealltwriaeth glir o'r dull rydym yn bwriadu ei ddefnyddio yn y tymor hwy.

Yr wyf innau hefyd yn pryderu am effaith Brexit heb gytundeb. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda Senedd yr Alban, wedi dweud yn glir wrth Lywodraeth y DU am beidio â dilyn y llwybr dinistriol hwn, llwybr a fydd yn ein barn ni yn cael effaith drychinebus ar economi Cymru.

Mae'r ansicrwydd parhaus yn rhoi cryn bwysau ar adnoddau o fewn Llywodraeth Cymru. Mae'r diffyg eglurder parhaus ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol yn gwneud y gwaith hwn yn llawer mwy cymhleth. Er y pwysau hyn, yn groes i'ch datganiad, mae cynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn. Rydym wedi penderfynu defnyddio dull ystyriol a chydweithiol er mwyn mynd i'r afael â'r bylchau hyn, sy'n mynd y tu hwnt i anghenion uniongyrchol.

Yn ei ddatganiad deddfwriaethol ar 17 Gorffennaf ac yn ystod y ddadl ddilynol, dywedodd y Prif Weinidog unwaith eto ei fod wedi ymrwymo i ddeddfu ar egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol, ond ni nododd ddyddiad penodol ar gyfer gwneud hynny yn ystod tymor presennol y Cynulliad. Mae hyn yn cydnabod pa mor gymhleth yw'r gwaith o ddatblygu system gydlynus sy'n ategu ein strwythurau cyfredol yng Nghymru. Mae hefyd yn cydnabod yr ansicrwydd parhaus ynghylch y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, sy'n arwain at bwysau ychwanegol ar y rhaglen ddeddfu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

## 2. Dull ar gyfer y DU gyfan

Fel yr wyf wedi dweud nifer o weithiau, rwyf bob amser wedi bod yn fodlon trafod ymateb posibl ar gyfer gweithredu'r egwyddorion sy'n cynnwys y DU gyfan. Rwyf wedi cydnabod ers cryn amser y bydd materion yn codi lle mae'n bosibl y byddai defnyddio dull ar gyfer y DU gyfan yn fwy buddiol. Rwyf wedi parhau i drafod dull o'r fath gyda'm Gweinidogion cyfatebol yng ngweddill y DU yn y Grŵp Rhyngweinidogol.

Rhaid imi ddweud unwaith eto fod Bil y DU yn adlewyrchu'r bylchau sy'n berthnasol i Loegr ac yn bodloni anghenion penodol Llywodraeth y DU – rwyf wedi pwysleisio'n gyson nad yw dull y Bil ar gyfer y DU yn briodol ar gyfer Cymru.

Fodd bynnag, mae nifer o ffyrdd o gyflawni dull ar gyfer y DU gyfan nad ydynt yn cynnwys datblygu corff ar gyfer y DU gyfan. Mae gwaith yn mynd rhagddo rhwng yr holl weinyddiaethau i ddatblygu dulliau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn trefniadau llywodraethu sy'n berthnasol i'r DU gyfan, a dulliau cydweithredol sy'n parchu'r gwahanol setliadau datganoli a'r system a'r bylchau gwahanol ym mhobl gweinyddiaeth. Er bod y trafodaethau sy'n mynd rhagddynt yn cael eu dylanwadu gan amserlen Bil y DU, mae'r dyddiad ar gyfer cyflwyno Bil y DU yn fater ar gyfer Llywodraeth y DU.

Rydym eisoes wedi cytuno â Llywodraeth y DU fod gennym set gyffredin o egwyddorion amgylcheddol ac mae gwaith ar gynigion yn mynd rhagddo sydd, lle bo hynny'n briodol, yn galluogi dulliau llywodraethu cydweithredol.

## 3. Monitro ac Adrodd

Rwy'n cydnabod y manteision mae bod yn aelod o Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop yn eu darparu, a phwysigrwydd Cymru yn parhau i allu cael mynediad at arbenigedd a meincnodi yn erbyn y pwyllgor rhyngwladol ehangach. Bydd unrhyw berthynas ag Asiantaeth yr Amgylchedd Ewrop, o ran cydweithio â sefydliadau'r UE yn y dyfodol, yn cael ei chynnal drwy'r DU fel cenedl-wladwriaeth. Wrth reswm byddaf yn parhau i gyfrannu at y trafodaethau hyn.

Rwy'n edrych ymlaen at adroddiad y pwyllgor yn cael ei gyhoeddi yn yr hydref.

Cofion,



**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

**National Assembly for Wales**
Climate Change, Environment and Rural Affairs Committee

Lesley Griffiths AC
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

19 Gorffennaf 2019

Annwyl Lesley

**Fframweithiau polisi cyffredin y Deyrnas Unedig**

Cyfarfu Cadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad ar 3 Gorffennaf i drafod y gwaith o ddatblygu'r fframweithiau polisi cyffredin ledled y DU sy'n deillio o'r broses o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Cytunodd y Cadeiryddion i ysgrifennu at Weinidogion Llywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth i helpu i lywio'r gwaith o graffu ar y materion hyn fel y maent yn berthnasol i gylch gwaith pob Pwyllgor.

Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech roi manylion i'r Pwyllgor am y materion a ganlyn:

- y camau a gymerwyd i ddatblygu fframweithiau ar faterion sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn, a'r cynnydd a wnaed hyd yma ar y gwaith o ddatblygu'r fframweithiau hyn;
- y sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau ar fframweithiau;
- y strwythurau rhynglywodraethol sydd wedi'u sefydlu neu sy'n cael eu sefydlu ar hyn o bryd; er enghraifft, fforymau gweinidogol ac ati;
- pa allbwn/allbynnau terfynol a ragwelir o'r fframweithiau, boed yn ddeddfwriaethol neu'n anneddfwriaethol;

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

- y ffordd y mae'r fframweithiau'n cysylltu â chamau gweithredu presennol neu arfaethedig gan Lywodraeth Cymru, boed yn ddeddfwriaethol neu'n anneddfwriaethol (gan gynnwys lle mae fframweithiau'n gorgyffwrdd â phortffolios eraill); a'r
- ffordd y caiff pob maes fframwaith ei reoli os bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd heb gytundeb.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i gynllunio ei waith craffu yn gynnar yn nhymor yr hydref, byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn 1 Medi.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

**Lesley Griffiths AC / AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA - P/LG/2813/19

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

30 Awst 2019

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf am Fframweithiau Polisi Cyffredin y DU a chais y Pwyllgor am ragor o wybodaeth i'w helpu i allu cynllunio'i waith craffu yn nhymor yr hydref. Rwyf wedi darparu gwybodaeth am y meysydd yr holodd y Pwyllgor amdanynt yn yr atodiad amgaeedig.

Cofion

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

***Y camau sydd wedi'u cymryd i ddatblygu fframweithiau ar gyfer meysydd cylch gwaith y Pwyllgor, a sut mae'r fframweithiau hynny yn dod yn eu blaen.***

Mae swyddogion polisi wedi bod yn siarad â'u cyd-swyddogion yn Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon am y mater hwn ers Tachwedd 2017.

Hyd yma, canolbwyntiwyd ar benderfynu pa Fframweithiau Cyffredin sydd eu hangen a datblygu safbwynt cychwynnol ynghylch y math o Fframweithiau Cyffredin sydd eu hangen. Y tro diwethaf yr ymdriniwyd â hynt y gwaith oedd yn Ebrill 2019, yn Nadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Fframweithiau Diwygiedig.

Mae nifer o feysydd polisi wedi'u nodi fel rhai y gallai fod angen deddfwriaeth arnynt fel sylfaen i'r Fframwaith a nodwyd bod angen rhoi blaenoriaeth iddynt.

Mae hon yn broses gymhleth ac mae'r timau polisi yn dal i geisio crisialu cwmpas pob Fframwaith Cyffredin posib. Mae hynny'n cynnwys penderfynu a oes angen deddfwriaeth neu beidio, nodi'r manylion gweithredol perthnasol ac edrych ar y trefniadau llywodraethu a gynigir. Mae ffrwyth y gwaith hwn yn cael ei gofnodi yn y Cytundebau Fframwaith Amlinellol.

***Y dystiolaeth a ddefnyddir i gefnogi penderfyniadau am fframweithiau***

Cafodd y penderfyniad a fyddai angen Fframwaith Cyffredin mewn maes polisi penodol neu beidio ei wneud ar ôl trafodaethau rhwng swyddogion polisi. Yn y trafodaethau hyn, rhoddwyd sylw i:

- effaith gwahaniaethau, a thebygolrwydd hynny;
- faint o waith y byddai'r Fframwaith yn ei ystyried; a
- manteision cydweithio ffurfiol.

Mae datblygu Fframweithiau'n waith iteraidd ac felly nid oes yr un o'r penderfyniadau hyn yn derfynol. Weithiau, fel rhan o'r gwaith cwmpasu wedi hynny, mae timau polisi wedi dod i'r casgliad y gwnâi cydweithredu anffurfiol y tro mewn rhai meysydd lle barnwyd cyn hynny bod angen Fframwaith Cyffredin. Ar y llaw arall, mae'n debygol yr eir i'r afael â rhai meysydd y barnwyd cynt bod angen deddfwriaeth arnynt heb ddeddfwriaeth.

***Strwythurau rhynglywodraethol sydd wedi neu sy'n cael eu sefydlu e.e. Fforymau Gweinidogion ac ati***

Cafodd JMC(EN) ei sefydlu ym mis Hydref 2017 ac mae'n ffordd i weinidogion gadw golwg ar y Rhaglen Fframweithiau.

O gofio'r nifer fawr o feysydd Fframwaith posib sy'n ymwneud â'r amgylchedd, bwyd a materion gwledig, penderfynwyd sefydlu cyfrwng llywodraethu clir ar lefel portffolio. I'r perwyl hwnnw, sefydlwyd Grŵp Rhyngweinidogol yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (IMG-EFRA) yn 2016 rhwng y gweinyddiaethau datganoledig a Defra i drefnu a hybu mwy o gydweithredu mewn meysydd lle rhennir buddiant. Ym mis Chwefror 2019, cytunwyd ar gylch gorchwyl diwygiedig a mwy ffurfiol ac mae'r grŵp yn cwrdd bellach bob rhyw 6 i 8 wythnos, gyda chefnogaeth uwch swyddogion.

IMG-EFRA sy'n cadw golwg ar lefel gweinidogion ar y Fframweithiau ac wrth i Fframweithiau unigol gael eu datblygu, bydd angen iddynt ddod o dan y drefn hon. Bydd yn ystyried materion wedi'u cadw a materion datganoledig, os oes posibilrwydd y gallent effeithio ar weinyddiaethau eraill y DU. Mae'r grŵp yn gyfrifol hefyd am faterion eraill yn y portffolio gan gynnwys datrys anghydfodau polisi, cynnal gweithgareddau ar y cyd a datblygu safbwyntiau ar lefel y DU ar gyfer trafod â'r UE a gwledydd eraill.

O fewn y rhyngwyneb â'r BEIS, ceir grŵp gweinidogion sy'n ystyried y Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni, mater sy'n perthyn i'm portffolio i. Mae Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth a finne'n dal i drafod â'r gweinidogion yn BEIS a gweinyddiaethau eraill y DU i sefydlu Grŵp Rhyngweinidogol a fydd yn cadw golwg ar y portffolio cyfan.

***Pa ganlyniadau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol a ddisgwylir gan y fframweithiau***

Bydd y fframweithiau'n datblygu system ar gyfer cydweithredu rhwng llywodraethau'r pedair gweinyddiaeth. Bydd yn cynnig trefn ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyfathrebu ac fel y dywedwyd uchod, bydd yn ategu'r trefniadau presennol sydd wedi'u llunio ar lefel portffolio. Bydd y gwaith cwmpasu sy'n cael ei wneud gan y timau polisi yn penderfynu pa elfennau y bydd angen deddfwriaeth arnynt a pha rhai fydd ddim.

Ar hyn o bryd, mae dau fframwaith yn fy mhortffolio (Cymorth i Amaethyddiaeth a Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd). Eir i'r afael â'r elfennau deddfwriaethol ynddynt trwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Cafodd yr elfennau deddfwriaethol hyn eu nodi ym Mil Amaethyddiaeth y DU a Bil Pysgodfeydd y DU.  Mae'r ddau'n cael eu trafod ar hyn o bryd gan Senedd y DU.

Pan welir nad oes angen deddfwriaeth, bydd llawer o'r systemau hyn wedi'u pennu mewn cytundebau ffurfiol rhwng y pedair gweinyddiaeth.

***Sut mae'r fframweithiau'n cysylltu â'r camau y mae Llywodraeth Cymru yn neu am eu cymryd, trwy ddeddfwriaeth a heb ddeddfwriaeth (gan gynnwys pan fydd fframweithiau yn croesi ffiniau portffolios)***

Mae Fframweithiau Cyffredin yn cael eu datblygu yr un pryd â'r trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU ar nifer o faterion arwyddocaol sy'n berthnasol i'r DU gyfan. Yn eu plith y mae'r paratoadau ar gyfer Brexit heb Gytundeb a'r trafodaethau am y bartneriaeth economaidd rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

Bydd gofyn i'r gwaith adlewyrchu'r cynigion polisi y bydd Llywodraeth Cymru wedi'u nodi at y dyfodol. Yn eu plith, y mae Rheoli ein Tir a chymorth i ffermwyr Cymru, rheoli'r amgylchedd morol a physgodfeydd a llenwi'r bylchau yn yr egwyddorion a'r trefniadau llywodraethu amgylcheddol.

Felly, bydd gofyn i'r Fframweithiau a'r cyrff neu'r strwythurau cysylltiedig fod yn hyblyg o safbwynt y penderfyniadau a wneir yn sgil y trafodaethau â'r UE a gwledydd eraill a gallu Llywodraeth Cymru i rhoi polisi ar waith er lles Cymru mewn meysydd datganoledig. Bydd gofyn iddynt roi platfform i'r trafodaethau hyn mewn ffordd sy'n sicrhau cydraddoldeb o ran cyfranogi a phenderfynu tra'n parchu'r cymwyseddau datganoledig.

***Sut y câi pob fframwaith ei reoli pe bai'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb.***

Mae Llywodraeth Cymru wedi galw ar Brif Weinidog y DU i ddatgan na fydd Brexit heb gytundeb. Yn ôl ein hasesiad ni, byddai'n bygwth busnesau Cymru a'r economi gyfan, fel yr esboniodd y Prif Weinidog wrth Brif Weinidog y DU mewn cyfarfod diweddar. Fodd bynnag, fel Llywodraeth, allwn ni ddim anwybyddu'r posibilrwydd real iawn y gallwn adael yr UE heb gytundeb.  Fel Llywodraeth gyfrifol, mae angen inni baratoi.

Cafodd y Fframweithiau Cyffredin eu datblygu fel rhaglen tymor hir o waith, gyda'r disgwyl y deuai i ben erbyn diwedd y cyfnod pontio ym mis Rhagfyr 2020.
Pe na cheir cytundeb, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r rhaglen Fframweithiau gael blaenoriaeth er mwyn gwneud yn siŵr bod trefniadau'n cael eu hystyried a'u craffu'n briodol a'u rhoi yn eu lle cyn gynted â phosibl.

Fel mesur interim, mae swyddogion wedi bod yn gweithio'n glos â gweinyddiaethau eraill y DU i gwmpasu a dylunio trefniadau llywodraethu interim er mwyn gallu darparu materion technegol a gweithredol hanfodol os bydd angen cydweithio ar lefel y DU. Rhywbeth dros dro fydd trefniant interim.  Er y gellid manteisio ar ffrwyth rhai o'r trafodaethau am Fframweithiau Cyffredin sydd eisoes wedi'u cynnal, ni ddylai fod yn gynsail ar gyfer ffurf y fframweithiau sydd eu hangen i allu gweithredu'n effeithiol yn y tymor hir.

Julie James AC
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

19 Gorffennaf 2019

Annwyl Julie

**Fframweithiau polisi cyffredin y Deyrnas Unedig**

Cyfarfu Cadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad ar 3 Gorffennaf i drafod y gwaith o ddatblygu'r fframweithiau polisi cyffredin ledled y DU sy'n deillio o'r broses o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Cytunodd y Cadeiryddion i ysgrifennu at Weinidogion Llywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth i helpu i lywio'r gwaith o graffu ar y materion hyn fel y maent yn berthnasol i gylch gwaith pob Pwyllgor.

Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech roi manylion i'r Pwyllgor am y materion a ganlyn:

- y camau a gymerwyd i ddatblygu fframweithiau ar faterion sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn, a'r cynnydd a wnaed hyd yma ar y gwaith o ddatblygu'r fframweithiau hyn;
- y sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau ar fframweithiau;
- y strwythurau rhynglywodraethol sydd wedi'u sefydlu neu sy'n cael eu sefydlu ar hyn o bryd; er enghraifft, fforymau gweinidogol ac ati;
- pa allbwn/allbynnau terfynol a ragwelir o'r fframweithiau, boed yn ddeddfwriaethol neu'n anneddfwriaethol;

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

- y ffordd y mae'r fframweithiau'n cysylltu â chamau gweithredu presennol neu arfaethedig gan Lywodraeth Cymru, boed yn ddeddfwriaethol neu'n anneddfwriaethol (gan gynnwys lle mae fframweithiau'n gorgyffwrdd â phortffolios eraill); a'r
- ffordd y caiff pob maes fframwaith ei reoli os bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd heb gytundeb.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i gynllunio ei waith craffu yn gynnar yn nhymor yr hydref, byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn 1 Medi.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

**Julie James AC/AM**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**
**Minister for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/JJ/2922/19

Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
Government.Committee.Business@gov.wales

28 Awst 2019

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Gorffennaf yn gofyn am wybodaeth am fframweithiau polisi cyffredin sy'n deillio o broses Brexit sy'n berthnasol i'r DU gyfan. Yn y portffolio Tai a Llywodraeth Leol mae dau fframwaith yn cael eu datblygu sy'n berthnasol i gylch gwaith Pwyllgor yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Y rhain yw'r Fframwaith Cynllunio Sylweddau Peryglus a'r Fframwaith Gwastraff. O ran datblygu fframwaith cyffredin ar gyfer y rhain, rwyf wedi darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn yr atodiad ynghlwm.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AC/AM**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Atodiad 1**

***Pa gamau sydd wedi cael eu cymryd i ddatblygu fframweithiau o fewn meysydd eich portffolio, a pha gam datblygu y mae'r fframweithiau hyn wedi ei gyrraedd;***

Mae swyddogion polisi wedi bod yn trafod â'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon ers Tachwedd 2017. Yn ystod y cyfnod hwn mae pob maes polisi wedi llwyddo i nodi lle bydd angen y fframweithiau a gwneud penderfyniad cychwynnol ynghylch y math o fframwaith a fydd ei angen. Cafodd y cynnydd yn y gwaith hwn ei drafod ddiwethaf yn Nadansoddiad Fframwaith Diwygiedig Llywodraeth y DU ym mis Ebrill 2019.

Cafodd fframwaith amlinellol ar gyfer cynllunio sylweddau peryglus ei gyhoeddi ar 3 Gorffennaf ac mae gwaith yn parhau ar ddatblygu manylion y fframwaith.

O ran y Fframwaith Gwastraff, cynhaliwyd cyfarfod i drafod y mater yn fanwl gyda swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon ym mis Chwefror 2018. Cafodd ail gyfarfod ei gynnal â'r un nod o drafod fframwaith cyffredin ar gyfer gwastraff yn fanwl ar 17 Gorffennaf. Rydym yn aros am gytundeb ar fframwaith diwygiedig gan Lywodraeth y DU yn dilyn trafodaethau yn y cyfarfod.

***Y sail dystiolaeth i ategu penderfyniadau ar fframweithiau;***

Roedd penderfyniadau ynghylch a fyddai angen fframwaith ar gyfer maes yn cael eu gwneud ar sail trafodaethau rhwng swyddogion polisi. Roedd y trafodaethau hyn yn ystyried yr effaith a'r tebygolrwydd o ddargyfeiredd yn y maes, faint o waith y byddai'r fframwaith yn ei ystyried; a'r manteision a fyddai'n deillio o gydweithredu ffurfiol.

Nid yw'r un o'r penderfyniadau hyn yn derfynol, gan fod yr ymgynghoriadau â swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon yn parhau. Mae rhai meysydd polisi a oedd o'r farn bod angen fframwaith ar y dechrau wedi penderfynu, ar ôl ystyried ymhellach, y bydd cydweithredu'n anffurfiol yn ddigon.

***Strwythurau rhynglywodraethol sydd wedi cael neu sydd yn cael eu sefydlu e.e. fforymau gweinidogion ac ati;***

Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Gweinidogion ym mis Hydref 2017 ac mae'n galluogi Gweinidogion i oruchwylio'r Rhaglen Fframweithiau.

Mae rhai cyfarfodydd Gweinidogion pedairochrog wedi cael eu sefydlu hefyd i ystyried materion sy'n benodol i bolisi wrth iddynt godi. Maent yn trafod materion sy'n codi o'r fframweithiau ond nid ydynt yn gyfyngedig i drafod y materion hyn. Er enghraifft, mae cynnydd ar y Fframwaith Cynllunio Sylweddau Peryglus wedi cael ei fonitro drwy weithgor swyddogion sy'n cynnwys arweinwyr polisi o Lywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, sydd fel arfer wedi cwrdd unwaith y mis.

***Pa allbynnau terfynol a ddisgwylir gan y fframweithiau – yn ddeddfwriaethol ac yn anneddfwriaethol;***

Bydd fframweithiau'n datblygu system rynglywodraethol ar gyfer cydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban a Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon. Bydd y systemau hyn yn darparu gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau a chytundeb.

Ar gyfer y fframweithiau hynny lle mae dull anneddfwriaethol wedi cael ei ddewis, disgwylir y byddant yn arwain at femorandwm cyd-ddealltwriaeth/concordat wedi'i ategu gan Gytundeb Fframwaith Amlinellol, sy'n amlinellu'r egwyddorion ar gyfer trafod a chydweithredu rhwng arweinwyr polisi pob gweinyddiaeth. Ar yr adeg hon mae'n debyg yr ymdrinnir â'r fframweithiau sy'n cael eu datblygu o fewn fy mhortffolio i ar sail anneddfwriaethol.

***Sut mae'r fframweithiau'n cysylltu â chamau gweithredu presennol neu arfaethedig Llywodraeth Cymru, rhai deddfwriaethol ac anneddfwriaethol (gan gynnwys lle mae fframweithiau'n gorgyffwrdd â phortffolios eraill); a***

Mae fframweithiau'n cael eu datblygu gan gadw datblygiadau polisi sy'n mynd rhagddynt i baratoi ar gyfer ymadael heb gytundeb a Phartneriaethau Economaidd y Dyfodol mewn golwg. Bydd yn bosibl addasu'r fframweithiau a chyrff cysylltiedig i benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch yr UE, a byddant yn darparu platfform ar gyfer y trafodaethau hyn mewn ffordd sy'n rhoi cydraddoldeb o ran cymryd rhan a gwneud penderfyniadau, ac yn amddiffyn cymhwysedd datganoledig.

***Sut bydd pob fframwaith yn cael ei reoli os yw'r DU yn gadael yr UE heb gytundeb.***

Mae adrannau wedi ymgymryd â dulliau dim cytundeb ar gyfer llywodraethu, gyda nifer yn cynnwys Trefniadau dros dro ar Lefel Gweithio. Mae'r rhain yn amlinellu dulliau rhynglywodraethol ar gyfer materion uniongyrchol a allai godi o ganlyniad i ymadael heb gytundeb. Mae'r Trefniadau Lefel Gweithio hyn yn gweithredu o dan rai o'r un strwythurau â fframweithiau, megis cyfarfodydd Gweinidogion pedairochrog. O fewn rhai meysydd polisi, gallai Trefniad Lefel Gweithio orgyffwrdd â fframwaith penodol, ac mae'n bosibl y bydd y gwaith o'i ddatblygu wedi defnyddio'r trafodaethau fframwaith sydd eisoes wedi cael eu cynnal. Mae trefniadau ar gyfer ymadael heb gytundeb yn dymor byr a thros dro – nid ydynt yn gosod unrhyw gynsail ar gyfer fframweithiau. Os ydym yn gadael heb gytundeb, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r rhaglen fframweithiau fod yn flaenoriaeth i sicrhau bod trefniadau, sydd wedi derbyn yr ystyriaeth a'r craffu priodol, yn cael eu rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd.

Ken Skates AC
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

19 Gorffennaf 2019

Annwyl Ken

**Fframweithiau polisi cyffredin y Deyrnas Unedig**

Cyfarfu Cadeiryddion Pwyllgorau'r Cynulliad ar 3 Gorffennaf i drafod y gwaith o ddatblygu'r fframweithiau polisi cyffredin ledled y DU sy'n deillio o'r broses o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Cytunodd y Cadeiryddion i ysgrifennu at Weinidogion Llywodraeth Cymru i ofyn am ragor o wybodaeth i helpu i lywio'r gwaith o graffu ar y materion hyn fel y maent yn berthnasol i gylch gwaith pob Pwyllgor.

Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech roi manylion i'r Pwyllgor am y materion a ganlyn:

- y camau a gymerwyd i ddatblygu fframweithiau ar faterion sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn, a'r cynnydd a wnaed hyd yma ar y gwaith o ddatblygu'r fframweithiau hyn;
- y sylfaen dystiolaeth i gefnogi penderfyniadau ar fframweithiau;
- y strwythurau rhynglywodraethol sydd wedi'u sefydlu neu sy'n cael eu sefydlu ar hyn o bryd; er enghraifft, fforymau gweinidogol ac ati;
- pa allbwn/allbynnau terfynol a ragwelir o'r fframweithiau, boed yn ddeddfwriaethol neu'n anneddfwriaethol;

- y ffordd y mae'r fframweithiau'n cysylltu â chamau gweithredu presennol neu arfaethedig gan Lywodraeth Cymru, boed yn ddeddfwriaethol neu'n anneddfwriaethol (gan gynnwys lle mae fframweithiau'n gorgyffwrdd â phortffolios eraill); a'r
- ffordd y caiff pob maes fframwaith ei reoli os bydd y DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd heb gytundeb.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i gynllunio ei waith craffu yn gynnar yn nhymor yr hydref, byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb erbyn 1 Medi.

Yn gywir,



**Mike Hedges AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon